- Cydrannau i'w hargymell mewn Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen

Cam 4: Sefydlu grŵp gweithredu'r cynllun yn fewnol a/neu yn allanol

- Cynlluniau gwywiad yr onnen presennol awdurdodau lleol

Rhan 3: Sut mae gwneud rhywbeth ac ymateb i wywiad yr onnen

Cam Gweithredu 1: Datblygu cynllun cyfathrebu i gynulleidfaoedd mewnol ac allanol

Cam Gweithredu 2: Deall colled yr onnen a bioamrywiaeth

Cam Gweithredu 3: Datblygu safle cyffredin i wywiad yr onnen ac ymarferion cyfreithiol presennol

Cam Gweithredu 4: Rheoli gwywiad yr onnen mewn mannau â risg uchel

Cam Gweithredu 5: Pamffled a chanllaw/offeryn bio-diogelwch

Cam Gweithredu 6: Cynnig cofnod o'r dirywiad mewn coed ynn

Cam Gweithredu 7: Clirio'r briffordd

Rhan 4: Adfer ac addasu

Paratoi a datblygu strategaeth goed Strategaeth adfer

3. CASGLIADAU

4. DIOLCHIADAU

Diolchiadau, nawdd ac ymwadiad

5. ADNODDAU PELLACH

Adnoddau pellach ar wywiad yr onnen

Adran 1: Rhagarweiniad

Gwywiad yr Onnen, *Hymenoscyphus fraxineus* (caiff hefyd ei adnabod fel *Chalara fraxinea*), ydy'r clefyd mwyaf i gael effaith ar y DU ers clefyd llwyfen yr Isalmaen gafodd ei adnabod gyntaf yn y 1960au. Bydd yn arwain at ddirywiad ac o bosibl marwolaeth y rhan fwyaf o goed ynn ym Mhrydain ac mae ganddo'r posibilrwydd i heintio dros 2 biliwn o goed ynn¹ (dros 1.8 biliwn o goed ifanc ac eginblanhigion a hyd at dros 150 miliwn o goed aeddfed) ledled y wlad.

O ystyried bod yr onnen ar led ar hyd ein tirwedd, gan gynnwys ar ochrau ffyrdd a strydoedd, bydd rheoli gwywiad yr onnen yn arwain at symud i ffwrdd o agwedd 'busnes fel arfer' tuag at orchymnion a blaenoriaethau newydd am adnoddau. Mae'r Pecyn Cymorth hwn wedi'i ddatblygu er mwyn cynorthwyo Awdurdodau Lleol a chyrrff rhanbarthol eraill wrth iddynt weithio'n rhagweithiol i reoli effaith y clefyd ar goed nad ydynt mewn coetiroedd.

Ers dechrau gwywiad yr onnen, mae'r Cyngor Coed wedi arwain ar ymchwil cyffredin ar ymatebion cynnar a strategaethau ymdopi tirfeddianwyr lleol ar gyfer y clefyd newydd yma. Bydd cynnydd anochel mewn coed ynn peryglus ac ar farw yn golygu y bydd yn angenrheidiol cael gwared ar fwyfwy ohonynt am resymau diogelwch. Fodd bynnag, yn ôl canfyddiadau, tydy llawer o Awdurdodau Lleol ac asiantaethau eraill ddim yn barod ar gyfer y fath raddfa o adnoddau fydd eu hangen er mwyn delio gyda materion diogelwch y cyhoedd sy'n codi o'r clefyd coed hwn. Tydyn nhw ychwaith ddim yn barod ar gyfer canlyniad hyn oll. Mae coedd ynn ar hyn o bryd yn cynnig buddion cefnogol, rheoli, darparu a diwylliannol, gan gynnwys gwerth tir uwch a lles y cyhoedd. Bydd angen cynllunio i ailblannu'r coed er mwyn adfer buddion hanfodol ecosystem y coed ynn gaiff eu torri i lawr.



Coed wedi'u heffeithio gan wywiad yr onnen © Jon Stokes

Mae angen ymateb lleol strategol a chydgyssylltiedig er mwyn ymdopi gyda'r nifer o broblemau ddaw yn sgil gwywiad yr onnen. Mae'r Pecyn Cymorth hwn wedi'i gynllunio er mwyn cynorthwyo Awdurdodau Lleol ac asiantaethau rhanbarthol a lleol eraill i baratoi **Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen** (CGGO) er mwyn ymateb i'r problemau fydd yn codi o achos y coed heintus.

Mae'r Offeryn hwn yn cynnwys adnoddau a deunyddiau wedi'u creu gan Awdurdodau Lleol ac asiantaethau eraill wrth iddynt baratoi i reoli effaith gwywiad yr onnen. Caiff yr enghreifftiau hyn eu cyflwyno trwy gydol yr adroddiad. Maent yn bennaf yn waith sydd ar fynd ac wedi'u cyflawni gyda chaniatâd hael yr asiantaethau a'r cyrrff wnaeth eu creu. Rydym yn gobeithio derbyn adborth gan eraill wrth iddynt ddatblygu eu CGGO eu hunain. Trwy'r broses hon, bydd arferion gorau gwywiad yr onnen yn datblygu wrth i ddeunydd newydd neu welliannau i'r enghreifftiau hyn ddod i rym, byddwn felly yn diweddarau'r ddogfen hon.

¹ See page 13 of: [Chalara in Non-Woodland Situations: Findings from a 2014 study](#)

Mae'r Pecyn Cymorth hwn yn ganllaw cam-wrth-gam ar gyfer creu CGGO effeithiol ac yn cynnwys enghreifftiau gan Awdurdodau Lleol sydd eisoes yn gweithredu ar reoli eu coed ynn. I weld rhestr ddiweddar o'r holl adnoddau gaiff eu cyfeirio atynt yn y ddogfen hon, ewch i www.treecouncil.org.uk/Ash-Dieback

Mae pedair rhan i'r Pecyn Cymorth:

- **Rhan 1:** Codi ymwybyddiaeth o wywiad yr onnen a'r problemau gall achosi
- **Rhan 2:** Paratoi'r CGGO
- **Rhan 3:** Sut mae gwneud rhywbeth ac ymateb i wywiad yr onnen
- **Rhan 4:** Adfer o wywiad yr onnen

PAM FOD ANGEN CYNLLUN AR GYFER GWYWIAD YR ONNEN?

Bydd gwywiad yr onnen yn arwain at newidiadau i'n tirwedd a phoblogaeth goed², newidiadau i fioamrywiaeth³ a chymeriad y dirwedd⁴ ac o bosibl yn cynyddu effeithiau tebyg i lifogydd wedi'i achosi gan sut mae'r dŵr yn rhyngweithio gyda'r amgylchedd⁵.

Mae'r gost genedlaethol o gael gwared ar goed sydd â gwywiad yr onnen yn anodd ei chyfrifo ond gall y gost o oblygiadau iechyd a diogelwch o achos coed ar ochrau ffyrdd sydd â'r clefyd hwn fod yn £5.3 biliwn. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Caint wedi amcan y bydd rheoli dirywiad coed ynn sy'n agos i ffyrdd a chilffyrdd Caint yn y pen draw yn gofyn am ymyriadau diogelwch gaiff effaith ar tua 500,000 goed⁶.

Bydd graddfa peryglon iechyd a diogelwch o achos gwywiad yr onnen yn unig yn golygu na fydd hi'n agwedd o 'fusnes fel arfer' i unrhyw sefydliad sy'n rheoli coed ynn.

Gall methiannau coed olygu cynnydd mewn nifer o bobl gaiff eu niweidio gan goed a chynnydd posibl mewn hawliadau eiddo. Bydd angen i sefydliadau adolygu a, lle bo angen, gwneud newidiadau i drefniadau ac ymarferion rheoli diogelwch coed⁷.

Yn ôl ein hymchwil, asiantaethau sy'n delio gyda gwywiad yr onnen ddylai ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Gweithredu Lleol. Daw'r argymhelliad hwn ar ôl trafodaethau gydag Awdurdodau Lleol oedd yn teimlo nad oeddynt yn barod ar gyfer effaith gwywiad yr onnen. Daw'r argymhelliad hefyd yn dilyn ymchwil gan Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd (Fera Science Ltd)⁸ ar reolaeth clefyd llwyfen yr Isalmaen, wnaeth achosi colli 30 miliwn o goed.

² Edrychwch ar dudalen 13 o: [Chalara in Non-Woodland Situations: Findings from a 2014 study](#)

³ [Asesu a mynd i'r afael ag effaith gwywiad yr onnen ar goetiroedd y DU a choed sydd o bwys o ran cadwraeth](#)

⁴ [Chalara in Non-Woodland Situations: Findings from a 2014 study](#)


⁵ [Posibilrwydd plannu coed a gwrychoedd er mwyn lleihau amllder ac effaith diawyddiadau o lifogydd yn y DU](#)

⁶ Cyfathrebu personol Cyngor Sir Caint

⁷ [Datganiad NTSG Ionawr 2015](#)

⁸ Rheoli Clefyd Llwyfen yr Isalmaen yn Nwyrain Sussex. Gwersi ar gyfer cynlluniau rheoli iechyd coed eraill. Fera Science Ltd (2013)

Mae Ffigwr 1 yn dangos y pedair rhan allweddol o ymateb i glefyd neu bla coed posibl neu bresennol. Mae'n seiliedig ar brotocolau Cynllunwyr Argyfwng gaiff eu defnyddio gan lawer a dyma oedd sail ymateb Caint i wywiad yr onnen.



Ffigwr 1: Cyfnodau rheoli clefyd neu bla coed Cynllun Gweithredu

Elfennau'r model hwn ydy:

- **Ymwybyddiaeth/disgwyliad:** codi ymwybyddiaeth am wywiad yr onnen a'r problemau gall achosi a sylweddoli bod angen gwneud gwaith er mwyn deall ac ymdopi gyda'r problem.
- **Cynllunio/asesu:** cynllunio a datblygu CGGO i helpu i reoli'r problemau gaiff eu hachosi gan wywiad yr onnen.
- **Gweithredu/ymateb i wywiad yr onnen:** dilyn camau gweithredu (er enghraifft, torri coed i lawr) er mwyn datrys problemau yn sgil gwywiad yr onnen.
- **Addasu ac adfer o wywiad yr onnen:** adfer y dirwedd yn sgil gwywiad yr onnen, rhan hanfodol o unrhyw broses argyfwng.

Mae'r pedair elfen hyn yn rhoi sail i Gynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen. Un rhan hanfodol o'r rhan Ymwybyddiaeth ydy'r gofyn i lunio Cynllun Cyfathrebu - edrychwch ar **Ran 3 (Cam Gweithredu 1) y Pecyn Cymorth.**

Bwriad y Pecyn Cymorth CGGO ydy:

- gwella dealltwriaeth ynglŷn â goblygiadau gwywiad yr onnen
- rhoi fframwaith lleol/rhanbarthol ar gyfer darparu CGGO
- gweithio ar lefel sirol, ond yn gallu addasu ar gyfer unrhyw raddfa
- canolbwyntio ar broblemau tactegol all wynebu sefydliad ond sy'n cynnwys yr angen i ddelio gydag effaith strategol clefyd a phla coed ar y dirwedd goed ehangach.

Rydym ar y camau cynnar o ddeall beth ydy'r ffyrdd gorau o ddelio gyda gwywiad yr onnen. Wrth i'n dealltwriaeth ddyfnhau, caiff y Pecyn Cymorth ei ddiweddarau a'i ymhelaethu. Mae'n seiliedig ar waith gan nifer o Awdurdodau

Lleol sydd wrth wraidd y gwaith o ddelio gyda haint gwywiad yr onnen ac yn rhoi enghreifftiau o'r prosesau maent wedi'u hymgymryd er mwyn bod â'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn dechrau ar y gwaith o adfer.

2. Y Pecyn Cymorth

RHAN 1: CODI YMWYBYDDIAETH

Er mwyn cyflwyno achos i allu treulio amser a gwario ar adnoddau ar gyfer Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen (CGGO), mae'n angenrheidiol i bob corff perthnasol ddeall yr effaith bosibl ar ei sefydliad neu ardal.

Yn seiliedig ar ddeunydd darllen a gweithredoedd nifer o Awdurdodau Lleol, bydd angen creu ymateb rhesymegol, cyson a chadarn i wywiad yr onnen yn seiliedig ar y camau canlynol:

- **Cam 1: Dysgu am wywiad yr onnen** a phenderfynu a ydy o'n cyflwyno perygl i sefydliad a'i ymarferion/dulliau gweithredu. Mae hyn yn cynnwys deall y clefyd, sut mae ei adnabod a lle mae modd dod o hyd iddo.
- **Cam 2: Asesu graddfa'r effaith** ar y sefydliad (er enghraifft, deall faint o goed ynn sydd yn eich ardal/rydych chi eu piau neu yn eu rheoli). Mae hyn yn cynnwys sut i gasglu data ac amcangyfrif nifer y coed ynn a chost posibl y broblem.
- **Cam 3: Cyflwyno achos i reolwyr/pobl sy'n gyfrifol am y gyllideb i greu Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen** er mwyn delio gyda'r problemau fydd yn codi. Mae hyn yn cynnwys asesu'r risg corfforaethol.

Cam 1: Dysgu am wywiad yr onnen

BETH YDY GWYWIAD YR ONNEN?

Mae gwywiad yr onnen, gaiff hefyd ei adnabod weithiau fel *Chalara*, yn effeithio ar goed ynn a rhywogaethau eraill o goed *Fraxinus* a chaiff ei achosi gan bathogen ffwngaid. Daeth y ffwng, *Hymenoscyphus fraxineus* (enw arall amdano ers talwm oedd *Chalara fraxinea*), o Asia i Ewrop yn ystod y 1990au gan ledaenu'n gyflym ar draws Ewrop. Er mai'r cofnod cyntaf swyddogol ym Mhrydain oedd yn 2012, mae tystiolaeth⁹ bellach yn awgrymu ei fod wedi cyrraedd yma cyn hynny, gyda dadansoddiad yn dangos bod coed yn marw o'r ffwng yn 2004.

Mae'r ffwng ymledol hwn yn achosi nifer o symptomau o smotiau ar ddail i wywiad canghennau i farwolaeth coed *Fraxinus excelsior* (ynn) a rhai rhywogaethau *Fraxinus* eraill. Unwaith bydd y coed yn heintus, bydd y rhan fwyaf yn marw.



Coeden onnen ar ochr ffordd yn Nosbarthiad Iechyd yr Onnen 4 © Jon Stokes

⁹Wylder et al, 2018, Tystiolaeth o ddyddiad marwolaeth *Fraxinus excelsior* yn nodi bod gwywiad yr onnen (*Hymenoscyphus fraxineus*) yn bresennol yn Lloegr yn 2004-2005. *Forestry*: ICF Ebrill 2018

Gall ambell i goeden onnen oroesi'r haint oherwydd ffactorau genetig wnaeth eu galluogi i oddef y clefyd. 'Mewn sefyllfaoedd nad ydynt mewn coetiroedd, tebyg i ardaloedd trefol neu ddinesig, lle mae coed yn tueddu i fod dan fwy o straen bioffisegol, mae hi'n aneglur ar hyn o bryd beth ydy'r canran o goed ynn yn y DU sy'n debygol o allu goddef y ffwng^{9a}. Mewn coetiroedd, mae tystiolaeth ym mis Rhagfyr 2018 yn awgrymu y gall cyfraddau marwolaeth fod rhwng 70% i 85%. Mae tystiolaeth o Ewrop yn awgrymu bod tua 10% o goed yn gallu goddef y clefyd ychydig, gydag 1-2% â lefel uchel o oddefiad. Mae gan yr amgylchedd hefyd ran yn sut mae coed yn dirywio o wywiad yr onnen, gyda choed sy'n tyfu y tu allan i'r amodau gorau posibl yn dirywio yn gynt. Ar hyn o bryd mae hi'n amhosibl rhagweld beth ydy union gyflymder dirywiad unrhyw goeden a bydd ffactorau eraill yn dylanwadu ar hyn gan gynnwys y math o bridd, lefelau gwlypter y pridd a daearyddiaeth leol.



Dail yr onnen yn gwywo oherwydd gwywiad © Jon Stokes

Fel un enghraifft, mae'r lluniau yn **Ffigwr 2** yn dangos y newid mewn un goeden yn Nyfnaint dros un tymor (tynnwyd y lluniau ar 06/07/16 a 07/07/17). Mae'r lluniau yn dangos dirywiad o 10%-15% yn y canopi mewn un tymor, ac mae adroddiadau anecdotaidd o ardaloedd o'r DU sydd wedi'u heffeithio gan wywiad yr onnen yn cefnogi hyn fel cyfradd arferol o ddirywiad. Fodd bynnag, gall rhai coed unigol (yn dibynnu ar eu hiechyd a'u cyflwr) ddirywio yn llawer cynt a bydd angen eu monitro). Gall rhai coed ynn aeddfed gyda gwywiad yr onnen ddirywio yn gynt os bydd pathogenau eraill tebyg i ffwng mêl (*Armillaria*) hefyd yn bresennol. Caiff y coed eu heintio yn bennaf wrth i asgoborau sydd wedi'u hatgynhyrchu yn rhywiol lanio ar ddail, ond gall y coed hefyd ddal yr haint ar waelod y boncyff (coron y gwreiddiau), mwy na thebyg trwy lentiselau sy'n mynd i mewn i'r goeden.



Ffigwr 2: Newid mewn un goeden mewn un tymor
Lluniau o'r chwith: © Rob Wolton, Jon Stokes



© Jon Stokes

Ffigwr 3: Cyrff hadol ar goesyn canolog dail y llynedd

Caiff yr asgoborau gaiff eu cludo gan y gwynt eu cynhyrchu o gyrff hadol (madarch gwyn bach) ar goesyn canolog (y racis) dail sydd wedi disgyn o goeden onnen y llynedd (**edrychwch ar Ffigwr 3**). Wrth iddo dyfu, mae'r ffwng yn dinistrio ffloem a sylem y goeden heintus, sy'n arwain at y goeden yn methu symud dŵr a maetholion o amgylch ei strwythur. Bydd y diffyg symud dŵr a maetholion hwn yn achosi i ganghennau'r goeden fethu a bydd y goeden yn 'gwywo', sy'n egluro'r enw. Bydd colli maetholion a dŵr dro ar ôl tro, yn ogystal â dihybyddu egni oherwydd y diffyg dail, ac ymyriad pathogenau eilaidd sy'n lladd gwreiddiau (er enghraifft, *Armillaria*), yn achosi i'r goeden fynd yn fregus, colli ei changhennau ac yn y pen draw ildio i'r clefyd.

Lle caiff niweidiau sylfaenol eu harsylwi (**edrychwch ar Ffigwr 4**) gall y rhain ddatblygu yn bydredd gwreiddiau a gall y coed heintus ddod yn ansefydlog a pheryglus. Mae'r pydredd gan amlaf yn gysylltiedig â phathogenau eilaidd eraill tebyg i ffwng mêl a gall ddigwydd heb unrhyw symptomau amlwg o wywo yn y canopi. Mae hyn yn ei gwneud gryn dipyn yn anoddach adnabod coed ynn 'perylus'.

Mae niweidiau sylfaenol wedi'u canfod yn eang ar draws Ewrop ac maent yn debyg o fod yn gysylltiedig ag ardaloedd o boblogaethau ynn niferus, ac felly llwyth sbôr, lle mae haint wedi bod yn bresennol am gyfnod hir. Yn benodol, mae coetiroedd gwlyb yn debyg o fod â'r risg uchaf o'r math hwn o haint yn Ewrop ond mae angen tystiolaeth bellach er mwyn asesu'r cyd-destun yn y DU. Am wybodaeth fanylach am fioleg gwywiad yr onnen [edrychwch ar y gwaith ymchwil hwn gan y Comisiwn Coedwigaeth](#).



Ffigwr 4: Niwed sylfaenol ar goeden onne

© Jo Clark: Future Trees Trust

SUT MAE ADNABOD GWYWIAD YR ONNEN

Mae adnabod symptomau gweledol gwywiad yr onnen yn hanfodol er mwyn asesu iechyd presennol poblogaeth coed ynn - cam angenrheidiol er mwyn deall difrifoldeb y clefyd mewn ardal. I helpu gydag adnabod y rhain, mae amrywiaeth o adnoddau ar gael ar-lein. Dyma rai enghreifftiau:

- [Cyngor adnabod gwywiad y Comisiwn Coedwigaeth](#)
- [Canllaw adnabod gwywiad yr onnen Observatree](#)
- [Canllaw symptomau gwywiad yr onnen y Cyngor Coed](#)

- [Canllaw symptomau mewn coed mawr y Cyngor Coed](#)

Gall y clefyd gael effaith ar goed ynn o bob maint a siâp. Tra bod y symptomau yn eithaf gweledol mewn coed ifanc, maent gan amlaf yn anoddach eu hadnabod mewn coed aeddfetach (edrychwch ar **Flwch 6 ar dudalen 30**).

LLE MAE MODD DOD O HYD I WYWIAD YR ONNEN?

Cafodd gwywiad yr onnen ei gofnodi am y tro cyntaf mewn meithrinfa yn Swydd Buckingham ym mis Chwefror 2012. Yn dilyn hyn, cafodd y clefyd ei adnabod ar blanhigyn newydd mewn maes parcio yn Swydd Caerlŷr ym mis Mai, ac yna wedi hynny ar goed ifanc yng Nghoedwig Ashwellthorpe yn Norfolk yn yr hydref yr un flwyddyn.

Erbyn mis Mehefin 2019, roedd y clefyd ffwngaid hwn i'w weld ar hyd y DU ac mae bellach yn amlwg yn 54.5% o sgwariau 10km y DU a thros ddau draean o sgwariau 10km Lloegr. **Mae modd ichi weld map rhyngweithiol sy'n dangos sut mae gwywiad yr onnen wedi'i wasgaru yma gyda diolch i Fera Science Ltd.**

Fodd bynnag, efallai bod y ffwng yn bresennol mewn mwy o rannau o'r DU na'r hyn sydd wedi'i gofnodi'n swyddogol, gan ei bod yn anodd canfod y symptomau, yn enwedig mewn coed mawr. Os nad ydy ardal o'r DU yn ymddangos ar y map fel ardal sydd â gwywiad yr onnen ar hyn o bryd, dydy hyn ddim o reidrwydd yn golygu nad ydy'r clefyd yno. **Os ydych yn amau bod gwywiad yr onnen mewn grid sgwâr 10km yna dylech roi gwybod am hyn drwy [Tree Alert](#).**

Mae'r mapiau swyddogol hefyd yn dangos presenoldeb ac absenoldeb y ffwng yn unig, ac nid lefelau'r haint mewn unrhyw ardal. Yn ychwanegol at hyn, mae cyfraddau gwywiad yr onnen a lefelau marwolaeth o wahaniaeth sylweddol wedi'u cofnodi mewn ardaloedd gwahanol. Gall hyn fod oherwydd gwahaniaethau mewn cyflyrau safleoedd, yn ogystal â gwahaniaethau yn etifeddiaeth genetig coed ynn mewn gwahanol rannau o'r wlad (Stocks et al., 2017). Felly, mae'n hanfodol bod rheolwyr tir yn monitro lleoliadau a gwasgariad y clefyd mewn unrhyw ardal (edrychwch ar **dudalen 18** 'casglu data coed ynn lleol') gan ei bod yn bwysig deall beth ydy lefel yr haint mewn ardal er mwyn dilyn unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol.

Cam 2: Asesu'r effaith ar eich sefydliad

SAWL COEDEN ONNEN?

Er mwyn deall graddfa effaith bosibl gwywiad yr onnen ar eich sefydliad, mae'n angenrheidiol casglu'r holl ddata sydd ar gael er mwyn amcangyfrif faint o goed ynn sydd mewn ardal a/neu caiff eu rheoli gan y sefydliad. Mae amcan bod dros 2 biliwn o goed ynn yn y DU, ffigwr sy'n cynnwys yr holl goed o eginblanhigion i goed aeddfed.¹⁰ O'r rhain, mae 125.9 miliwn yn goed mewn coedwigoedd a 27.2–60 miliwn o goed (gan ddefnyddio'r un diffiniad) mewn ardaloedd nad ydynt yn goetiroedd. Mae hyn yn ôl diffiniad y Comisiwn Coedwigaeth o 'goeden' gyda choesyn sy'n fwy na 4cm mewn diamedr ac yn 1.3 metr uwchben y ddaear.¹¹

Mewn amgylchedd trefol neu ddinesig:

- **Mae amcan bod 4 miliwn o goed ynn trefol/dinesig yn y DU, 4.1% o'r 89 miliwn o goed trefol/dinesig i gyd**
 - **Mae Priffyrdd Lloegr yn amcangyfrif bod o leiaf 4 miliwn o goed ynn wrth ymyl eu rhwydwaith ffyrdd**
 - **Mae Network Rail yn amcangyfrif bod 400,000 o goed ynn mawr yn gyfagos i'r rhwydwaith rheilffordd.**
- Mae modd cael gwybodaeth bellach ar nifer y coed ynn ym Mhrydain yn **Ash Dieback in Non-Woodland Situations**.

¹⁰ [Chalara in Non-Woodland Situations, by The Tree Council on behalf of DEFRA](#)

¹¹ [11NFI preliminary estimates of quantities of broadleaved species in British woodlands, with special focus on ash](#)

Mae'r ffigyrau coed ynn hyn yn darparu cyd-destun cenedlaethol yn unig, nid ydynt yn rhoi darlun o'r sefyllfa lleol. Bydd effaith benodol gwywiad yr onnen yn dibynnu ar nifer a gwasgariad yr onnen mewn unrhyw le.


Cafodd set bellach o ddata ei gynhyrchu gan y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH) wnaeth ddefnyddio set data yr Arolwg Cefn Gwlad yn 2012 i gynhyrchu map (**Ffigwr 5**) oedd yn dangos pa mor niferus oedd coed ynn ledled y DU.

Am wybodaeth bellach am y gwaith hwn, edrychwch ar y [diweddariad](#) hwn gan CEH, a'r [adroddiad llawn](#).

Er mwyn deall beth ydy effaith lleol gwywiad yr onnen, bydd angen cynnal asesiad o boblogaeth yr onnen a'i gwasgariad. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i sefydliadau gasglu'r holl wybodaeth sydd ar gael yn lleol am yr onnen a hefyd o bosibl ymgymryd â gwaith casglu data coed ynn lleol penodol.

CASGLU DATA COED YNN LLEOL

Y man cychwyn gorau ydy casglu'r holl ddata lleol sydd ar gael am yr onnen o unrhyw ffynhonnell, er enghraifft o Restr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed y Comisiwn Coedwigaeth, Gorchmynion Cadwraeth Coed neu Arolygon Coed mewn Mannau Cyhoeddus gan Awdurdodau Lleol, data Ancient Tree Hunt neu gofnodion o'r Ganolfan Cofnodion Bioamrywiaeth Lleol. Yn Swydd Henffordd, roedd yr awdurdod yn bwriadu ymchwilio i'r coed ynn hynny oedd gyfagos i'r briffordd neu ar dir oedd yn berchen i'r cyngor fyddai'n gallu achosi problem petaent yn marw neu yn disgyn ar y briffordd neu ardal gyhoeddus. Yn ystod haf 2016, bu i staff Cyngor Swydd Henffordd gasglu data i fesur y nifer posibl o goed ynn yn y sir (edrychwch ar **Flwch 1** am eu hadolygiad a'r ffynonellau gwybodaeth gafodd eu defnyddio).



Ffigwr 5: Map lleoliad coed ynn

Hawl/hawlfraint Cronfa ddata yr Arolwg Cefn Gwlad NERC - Canolfan Ecoleg a Hydroleg. Cedwir pob hawl.

BLWCH 1 Asesiad coed ynn Swydd Henffordd

Yn ystod haf 2016, bu i staff Cyngor Swydd Henffordd gasglu data i fesur y nifer posibl o goed ynn yn y sir. Ni chafodd staff penodol nac adnoddau ariannol eu neilltuo ar gyfer y broses hon ac roedd yr holl ddata ar gael yn rhwydd, neu ar gael yn fewnol yn yr awdurdod. Mae amcan bod 18 awr wedi'i dreulio yn casglu'r wybodaeth dros gyfnod o sawl mis ac roedd gofyn am wybodaeth leol helaeth.

CANFYDDIADAU:

- Mae'r onnen yn goeden niferus yn Swydd Henffordd ac yn ymddangos llawer ar hyd ardaloedd llinellog fel gwrychoedd, ffyrdd, rheilffyrdd a glannau afon.
- Mae'r ffigyrau gorau sydd ar gael yn awgrymu bod mwy na 500,000 o goed ynn llawn twf neu bron â bod yn aeddfed y tu allan i goetiroedd yn y sir; yr onnen ydy'r goeden fwyaf niferus ar hyd gwrychoedd ac mae'n darparu dros 50% o ganopi coed nad ydynt mewn coetiroedd yn y sir.
- Mae coetiroedd sy'n llawn o'r onnen yn bennaf yn ymestyn dros 6,500 hectar (mwy na 25%) o'r holl goetir o goed dail llydan yn Swydd Henffordd (Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed [Henffordd a Chaerwrangon], y Comisiwn Coedwigaeth, 2003 - data 1997). Mae'r onnen hefyd yn ymddangos mewn ardaloedd trefol/dinesig: mae manau cyhoeddus agored dan reolaeth y cyngor yn cynnwys dros 2,600 o goed ynn aeddfed. Mae Swydd Henffordd yn y 10 sir uchaf ar gyfer canran yr onnen sy'n rhan o'r canopi mewn coetir.
- [Mae Rhestr o Goed Hynafol yr Ymddiriedolaeth Goetir](#) yn rhestru 8,328 o goed ynn "hynafol, hen a nodedig" yn Lloegr gyda dros 6% (531) yn Swydd Henffordd (ffigwr cywir ar 25/11/2016).
- Mae gwerth bioamrywiaeth yr onnen fel rhywogaeth gynhaliol yn helaeth: dros y 10 mlynedd diwethaf mae Canolfan Cofnodion Biolegol Swydd Henffordd (HBRC)¹² wedi dal 451 cofnod ¹² ar gyfer rhywogaethau ar y rhestr 'goch' (data wedi'i ddarparu ym mis Tachwedd 2016).
- Mae amcan bod mwy na 120,000 o goed ynn yn tyfu ar ochr dros 3,250km o ffyrdd cyhoeddus Swydd Henffordd a ffigwr gyfartal os nad yn fwy o bosibl yn cael effaith ar y 3,360km o hawliau tramwy cyhoeddus yn y sir. Mae hyn yn seiliedig ar ddata wedi'i ailosod o arolygon priffyrdd yn Nyfnaint a Norfolk.
- Mae rhywogaethau'r onnen wedi'u cynnwys yn nisgrifiadau 79% o Orchmynton Cadwraeth Coed cofrestredig y sir.

Arolygon Diogelwch Coed mewn Manau Cyhoeddus Cyngor Swydd Henffordd 2010 a 2012

Am wybodaeth bellach [edrychwch ar yr asesiad llawn yma](#).

Unwaith bydd unrhyw ddata presennol wedi'i dynnu at ei gilydd, mae'n debygol iawn y bydd angen data ychwanegol. Mae modd casglu hyn drwy arolygon penodol sy'n canolbwyntio ar yr onnen. Fodd bynnag, yn ôl profiad, mae awgrym bod yr arolygon hyn gan amlaf yn cael eu comisiynu fel rhan o ddatblygiad Cynllun Gweithredu yn hytrach nag ar y man cychwynnol hwn. Mae gwybodaeth bellach ym **Mlwch 7**.

COSTAU POSIBL O ACHOS GWYWIAD YR ONNEN

Unwaith bydd amcan o'r nifer o goed ynn mewn ardal y cam nesaf fydd cyfrifo'r costau cyllidebol posibl i'r sefydliad. Gall cynllunio senario helpu gyda'r broses hon - er enghraifft, gofyn cwestiynau tebyg i:

- *Beth fuasai'r effaith ar wariant a risg petai 60%/75%/90% o goed ynn yn yr ardal yn dirywio/marw oherwydd gwywiad yr onnen yn y 5–10 mlynedd nesaf?*
- *Pa adnoddau fydd eu hangen os bydd nifer fawr yn dod yn beryglus mewn un tymor?*

¹² 451 cofnod gan Ganolfan Cofnodion Biolegol Swydd Henffordd (HBRC)

Wrth ichi amcan yr adnoddau fydd eu hangen dylech sicrhau bod eich costau yn cynnwys y canlynol

- **gwaith arolwg ychwanegol**
- **costau gwaith rheoli coed ymarferol ychwanegol, er enghraifft, torri coed peryglus i lawr**
- **amser ychwanegol staff i weithio gyda pherchnogion preifat er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwared ar goed peryglus**
- **amser staff i ddelio gyda mwy a mwy o ymatebion gan y cyhoedd, er enghraifft, ceisiadau i dorri coed i lawr**
- **amser staff i ddelio gyda cheisiadau i dorri coed ynn i lawr sydd â Gorchymyn Cadwraeth Coed**
- **costau ychwanegol i ailblannu unrhyw beth**
- **unrhyw gostau staff neu ymgynghori eraill ychwanegol**
- **cyfathrebu ac ymgynghoriadau ychwanegol er mwyn egluro gwywiad yr onnen i randdeiliaid perthnasol**

Ni fydd pob un o'r rhain yn briodol ym mhob sefyllfa. Un Cyngor Sir sydd wedi ymgymryd â'r ymarfer hwn ac mae eu hamcangyfrifon cyntaf i'w gweld ym Mluch 2. Bu i Fwrdeistref Sirol hefyd ymgymryd â chyfrifiadau i amcangyfrif eu costau posibl pan fydd gwywiad yr onnen yn taro eu coed; mae modd gweld hyn ym Mluch 3. Yn wahanol i ffigyrau'r Cyngor Sir, tydy ffigyrau'r Fwrdeistref Sirol ddim yn cynnwys ailosod unrhyw goed preifat ond yn hytrach yn canolbwyntio ar y coed dan berchnogaeth neu reolaeth y Cyngor.

BLWCH 2 Asesiad Cyngor Sir o oblygiadau i'r gyllideb

Ystadegau sylfaenol:

6,020 o goed ynn wedi'u cofnodi ar ochrau priffyrdd wedi'u mabwysiadu

120,000 ffigwr amcan o goed ynn dan berchnogaeth breifat ac o fewn pellter i ddisgyn ar briffordd

1,546 o goed ynn wedi'u cofnodi ar dir ysgol

5,968 ffigwr amcan o goetir onnen sy'n gyfagos i fannau cyhoeddus

Mae **83%** o'r coed ynn wedi'u cofnodi yn 6 metr a mwy mewn maint (*y maint sydd angen gwaith er mwyn cael gwared ar risgiau diogelwch*)

Goblygiadau costau torri coed i lawr:

Rhagdybiaeth: cyfradd marwolaeth o **75%** gyda chost arferol torri coed i lawr yn **£400** (*ddim yn cynnwys arolwg*)

Ochrau priffyrdd wedi'u mabwysiadu: **83%** o 6,020 o goed x**75%** cyfradd marwolaeth @ **£400** yr un

= £1,499,000

Perchnogaeth breifat gyfagos i briffyrdd: **83%** o 120,000 o goed x**75%** cyfradd marwolaeth @ **£400** yr un

= £29,880,000

Tir ysgol: **83%** o 1,546 o goed x**75%** cyfradd marwolaeth @ **£400** yr un

= £385,000

Coetiroedd cyfagos i fannau cyhoeddus: **83%** o 5,968 o goed x**75%** cyfradd marwolaeth @ **£400** yr un

= £1,468,000

Plannu coed er mwyn gwneud iawn am y golled:

Yn seiliedig ar Gynllun Coed Am Ddim ar gyfer **83,127** o goed a gollir ar dir awdurdodau lleol ac sydd gyfagos i'r briffordd, @ **£15** y goeden **= £1,246,905**

Cyfanswm costau posibl ar farwolaeth 75% = £34,478,905

(Newid 10% mewn marwolaeth yn cyfateb i +/- £6.7m)

BLWCH 3 Aseiad Bwrdeistref Sirol o oblygiadau i'r gyllideb

Mae cymysgedd o rywogaethau *Fraxinus* yn y Fwrdeistref hon ond yr un amlycaf o bell ffordd ydy'r *Fraxinus excelsior*, gyda 1,115 o goed ynn o dan eu rheolaeth, sy'n cynrychioli 7.5% o'r coed maen nhw'n eu rheoli.

Mae eu poblogaeth o goed *Fraxinus excelsior* yn gyfuniad o : 665 o goed gyda choesyn â diamedr hyd at 30cm; 413 o goed gyda choesyn â diamedr o 30 i 60cm a 37 o goed gyda choesyn â diamedr o 60 hyd at 90cm.

Gan ddefnyddio'u ffigyrau nhw, y gost ychwanegol i gael gwared ar y coed hyn fuasai:

Colled o 60% Torri'r coed a malu'r bôn yn fân = **£140,299**

Colled o 75% Torri'r coed a malu'r bôn yn fân = **£158,168**

Colled o 90% Torri'r coed a malu'r bôn yn fân = **£176,037**

Yn ogystal buasai'r gost archwilio diogelwch cyfredol yn cynyddu 254%.

Buasai'r costau i ailblannu'r coed ynn yn amrywio o

£117,075 (colled o 60%) i **£175,612** (colled o 90%)

Bu i Awdurdodau Lleol ac asiantaethau eraill fwrw golwg ar gostau torri'r coed ac ailblannu'r coed. Yn y Sir enghreifftiol, lle mae'n bosib y bydd llawer mwy o goed i'w hailblannu ond lle mae'r gost fesul pob coeden yn llai (£15), caiff y gymhareb gwario i dorri coed / ailblannu ei bwysu'n drwm tuag at y costau torri'r coed.

Fodd bynnag, yn y Fwrdeistref enghreifftiol mae'r costau o £175 fesul coeden (coed mwy wedi'u plannu mewn mannau mwy trefol) yn gwthio'r gymhareb torri / ailblannu yn llawer nes at fod yn gyfartal. Unwaith caiff yr amcan gostau cyntaf ynghylch y niferoedd o goed ynn a'r costau posib ynghlwm â gwywiad yr Onnen eu casglu, gallwn ddefnyddio'r wybodaeth er mwyn pennu camau nesaf y broses – llunio cais ar gyfer Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen (CGGO).

Cam 3: Gwneud achos am Gynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen (CGGO)

I lunio achos ar gyfer Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen (CGGO), mae'n bwysig ystyried nid yn unig y costau ymarferol posib i'r mudiad (gwelwch Gam 2 uchod), ond hefyd y peryglon posib i'r mudiad fel caiff eu hadnabod yn y gofrestr risg gorfforaethol. Bydd adolygu'r ddau ar y cyd yn fodd o benderfynu ydy gwywiad yr onnen yn golygu risg i weithrediadau'r mudiad.

RISG CORFFORAETHOL

Yn ein trafodaethau gydag Awdurdodau Lleol, caiff effeithiau dichonol o goed ar farw a pheryglus yn sgil gwywiad yr onnen eu derbyn fel risg corfforaethol sylweddol bob amser. Cafodd llunio Cynllun Gweithredu i reoli'r risgiau hyn ei adnabod fel y ffordd symlaf o ofalu gall mudiad fynd i'r afael â gwywiad yr onnen, a'r trafferthion yn sgil hyn ,yn effeithiol.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o sut gall gwywiad yr onnen effeithio ar asesiad risg corfforaethol:

EFFAITH AR IECHYD A DIOGELWCH

- Posib o achosi marwolaeth neu anaf yn sgil damweiniau yn ymwneud â gwywiad yr onnen, i weithwyr proffesiynol yn gweithio ar y coed ac i'r cyhoedd.
- Mwy o broblemau iechyd a diogelwch yn sgil llai o goed ynn ar ffyrdd, tir o dan berchnogaeth a chaiff ei reoli fel parciau gwledig, stadau tai, ysgolion, llwybrau beicio, llwybrau march a llwybrau cerdded.
- Risgiau i weithrediadau statudol neu ddarpariaeth gwasanaethau fel cynnal ysgolion diogel, manau agored cyhoeddus neu briffyrdd.
- Risgiau i staff a defnyddwyr o goed ar dir gyferbyn yn disgyn i mewn i'ch ystâd.
- Risgiau o goed ynn yn disgyn ar ffensys, arwyddion neu storfeydd offer.

EFFAITH AR YR ECONOMI

- Cynnydd mewn cyfrifoldebau mewn achosion o farwolaeth neu anafiadau yn sgil damweiniau yn ymwneud â gwywiad yr onnen.
- Lefelau staffio annigonol a'r gallu (neu anallu) i gyflawni'r gwaith gofynnol gan olygu mwy o gostau i recriwtio a chadw'r staff hanfodol
- Cynnydd mewn gwariant uniongyrchol ac anuniongyrchol oherwydd gwywiad yr onnen e.e. staff ychwanegol a gwaith rheoli, ac effeithiau posib hyn ar wasanaethau a chyllidebau eraill.
- Costau ychwanegol er mwyn cael gwared ar nwyddau gwastraff o goed ynn cwmpedig yn cyrraedd y system rheoli gwastraff.
- Costau cynyddol yn sgil cystadleuaeth yn y farchnad ar gyfer nifer cyfyngedig o gontractwyr coed medrus
- Cynnydd mewn costau uniongyrchol / anuniongyrchol yn sgil mwy o risg o lifogydd oherwydd newidiadau i'r ffordd caiff dŵr ei storio gan wreiddiau coed, neu ei amsugno i'r pridd neu ei amsugno gan goed ynn.
- Costau ailblannu angenrheidiol er mwyn cadw gwasanaethau ecosystem gan goed ynn e.e. lleihau llifogydd, cysgodi manau trefol, storio carbon a chynefinoedd ar gyfer bioamrywiaeth.
- Mwy o gyfrifoldebau yn sgil risgiau i dir gyferbyn ac eiddo 'trydydd parti' yn sgil eich coed yn disgyn / canghennau yn torri
- Gostyngiad mewn costau marchnad ar gyfer nwyddau coed ynn yn sgil mwy o goed ynn ar y farchnad.

NIWED I'R ENW DA

- Posib o amhariadau yn sgil rheoli gwywiad yr onnen e.e. cau sawl ffordd er mwyn mynd i'r afael â choed a all achosi peryg
- Risgiau gwleidyddol ac i enw da yn sgil newyddion negyddol yn y wasg yn sgil rheoli gwywiad yr onnen ynghyd â gwarth cyhoeddus a/neu orbryder.
- Perthnasau dan bwysau o bosib gyda pherchnogion a rheolwyr tir wrth i fwy o goed ynn wywo a bod mwy o gostau ynghlwm i berchnogion preifat.

EFFAITH AR YR AMGYLCHEDD

- Newidiadau i'r dirwedd gydag effeithiau ar dwristiaeth a chyfleoedd adloniadol
- Colled ynghylch gwasanaethau ecosystem fel lleihad mewn ansawdd aer, posib o gynnydd mewn llifogydd, colledion o ran bioamrywiaeth, cynnydd mewn lefelau sŵn gyferbyn â ffyrdd, colled sgriniau gweledol

- Risgiau i rywogaethau / safleoedd wedi'u gwarchod drwy addasu strwythurau, sefydlogrwydd a chyfansoddiad cynefinoedd e.e. colli safleoedd bridio / bwydo ystumod
- Colled mewn ymneilltuad carbon a charbon wedi'i gadw
- Colled mewn bioamrywiaeth yn sgil lleihad neu farwolaeth rhywogaethau sy'n ddibynol yn sylweddol neu'n gyfan gwbl ar goed ynn.

BLWCH 4 Brysbennu plâu a chlefydau a chofrestr risgiau

Er mwyn medru ychwanegu gwywiad yr onnen i'w cofrestr risg corfforaethol ar y gweill, bu i Gyngor Sir Gorllewin Sussex ddatblygu ac maen nhw'n treialu system 'brysbennu' er mwyn asesu'r risg gan unrhyw bla neu glefyd

Yn ystod 2017, bu iddyn nhw roi'r 'system brysbennu' ar waith er mwyn dangos effeithiau dichonol gwywiad yr onnen ac er mwyn cyfiawnhau'r adnoddau angenrheidiol i ddatblygu Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen. Mae'r broses awgrymedig fel a ganlyn:

– Caiff swyddogion perthnasol eu hysbysu am beryg pla/clefyd newydd gan Defra a'i asiantaethau

– Caiff effaith y pla neu glefyd ei 'brysbennu' yn erbyn y risgiau wedi'u hadnabod yn Asesiad Risg Cymunedol a chofrestr risg cyfundrefnol Gorllewin Sussex sy'n ymwneud â'r canlynol:

- **Risg Adnoddau:** colli gwerth amgylcheddol, fel gwasanaethau ecosystem ar raddfa cynefinoedd ynghyd â gwerth economaidd o ran costau cyllideb, staff, uniongyrchol ac anuniongyrchol.
- **Risg i ddyletswyddau/gweithredoedd/darparu gwasanaethau statudol:** fel awdurdod priffyrdd (gan gynnwys hawliau tramwy cyhoeddus) ac fel perchennog tir: ysgolion, eiddo eraill a thirddaliadaeth
- **Risg Gwleidyddol / i enw da:** gwarth cyhoeddus / gorbryder cyhoeddus
- **Risg iechyd a diogelwch:** marwolaethau / damweiniau / amhariad cymdeithasol.

Risks are categorised against each item in the risk register as follows: **LOW:** ● **MEDIUM:** ● **HIGH:** ●

		LIKELIHOOD				
		1 – Very Unlikely	2 – Unlikely	3 – Possible	4 – Likely	5 – Certain
IMPACT	1 – Insignificant	●	●	●	●	●
	2 – Minor	●	●	●	●	●
	3 – Moderate	●	●	●	●	●
	4 – Significant	●	●	●	●	●
	5 – Catastrophic	●	●	●	●	●

Caiff trefn pob eitem eu cofnodi'n annibynnol (heb eu hagregu neu eu cyfartaleddu), ac mae'r effaith gaiff ei restru uchaf yn pennu'r deilliant 'brysbennu' isod. Mae hyn yn caniatáu i'r Cyngor Sir ymateb i'r pla neu glefyd yn briodol. Mae'r llwybr 'brysbennu' yn ymwneud â'r opsiynau canlynol:

1. Os ydy effaith y pla neu glefyd yn ddinod neu'n bitw (1 neu 2 yn y tabl) i'r mudiad neu safle, dylid adolygu'r pla/clefyd yn flynyddol o leiaf er mwyn gofalu nad oes unrhyw newid. Os ydy'r peryg cenedlaethol (wedi'i ddiffinio gan Defra) yn sgil y pla neu glefyd yn newid yn ystod y flynyddyn, yna fe ddylai ail-frysbennu'r pla/clefyd.
2. Os ydy'r effaith yn gymharol (3 yn y tabl), dylid monitro gwybodaeth am y pla/clefyd yn rheolaidd. Os ydy'r pla/clefyd yn bresennol yn yr ardal, yna mae'n bosib bydd yn rhaid monitro union raddau/effaith. Os ydy'r risg cenedlaethol yn sgil y pla neu glefyd (wedi'i ddiffinio gan Defra) yn newid, yna fe ddylid ail-frysbennu'r pla/clefyd.
3. Os ydy'r effaith ar y mudiad yn sylweddol neu drychinebus (4 neu 5 yn y tabl) – yna fe ddylai'r mudiad baratoi neu ddatgan Cynllun Gweithredu Lleol ynghylch Plâu neu Glefydau.

Yn ystod y cyfnod datblygu, daeth i'r amlwg fod modd ei roi ar waith gydag unrhyw bla/clefyd. I wybod mwy am fframwaith proses Gorllewin Sussex ar gyfer penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau ar gyfer gweithredu, [gwelwch yma](#).

Caiff system brysbennu plâu a chlefydau Gorllewin Sussex ei ddylanwadu gan Asesiad Risg Cymunedol Fforwm Gwydnwch Sussex ([gwelwch yma](#)). Gan ddefnyddio'r trothwyon hyn a'r wybodaeth sydd ar gael am blâu / clefydau, bu modd i'r Cyngor Sir gynnal asesiad cymaradwy o effaith tebygol gwywiad yr onnen ar elfennau amrywiol fframwaith risg y Sir.

Bu i hyn achosi cynhyrchu cofrestr risg iechyd planhigion lleol yn seiliedig ar y [Cofrestr Risg Iechyd Planhigion Prydain](#). Mae hon yn ddogfen fyw er mwyn monitro a chofnodi'r risgiau. Bu i wywiad yr Onnen gofrestru sawl effaith 'sylweddol' yn erbyn eu cofrestr risgiau ac felly bu'n rhaid llunio Cynllun Gweithredu, sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Bydd gan bob mudiad wahanol elfennau a throthwyon ar gyfer eu cofrestr risg ond gan ddefnyddio'r dull hwn, bydd o bosib yn help i sefydlu'r angen am Gynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen.

Crynodeb: Yr angen am Gynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen

Mae rheoli'r coed a risgiau yn rhagweithiol yn fwy cost effeithiol na rheoli adweitheddol ac er mwyn reoli gwywiad yr onnen yn rhagweithiol, bydd angen datgan y canlynol:

- **Fe fydd coed ynn meirw / ar farw:** bydd lledaeniad gwywiad yr onnen yn achosi i gyfran sylweddol o holl goed ynn i ostwng neu farw. Bydd effeithiau ariannol ac ymarferol ar bob mudiad sy'n gyfrifol am reoli llystyfiant.
- **Mae yna ond cyfnod byr i baratoi:** mae'n bosib y bydd y coed hyn yn marw wedi ond ychydig o flynyddoedd o heintiad, felly mae'n bosib na fydd gan fudiadau llawer o amser i baratoi ar gyfer effeithiau gwywiad yr onnen a'i gostau ychwanegol.
- **Mae'n rhaid asesu graddfa'r effaith:** mae'n debyg y bydd graddfa'r broblem yn sgil gwywiad yr onnen yn sylweddol uwch na chlefyd y Llwyfen yr Isalmaen (gan fod yna o leiaf dwywaith y nifer o goed ynn mewn mannau cyhoeddus na choed llwyfen). Mae hyn hefyd yn cynnwys y costau ychwanegol ynghlwm â rheoli gwywiad yr onnen. Mae ymdrin â'r broblem yn adweitheddol yn debygol o fod yn ddrytach na chynllunio'ch ymateb drwy Gynllun Gweithredu.
- **Bydd yn effeithio ar y risg corfforaethol:** bydd gwywiad yr onnen yn effeithio ar gofrestri risg corfforaethol yn enwedig o ran risgiau i weithredoedd statudol neu ddarpariaeth gwasanaethau, peryg o fwy o farwolaethau neu anafiadau, effeithiau ar gyllidebau, risgiau i isadeiledd, mwy o gyfrifoldebau, risgiau i gymunedau staff a 'defnyddwyr' ynghyd â risgiau gwleidyddol neu i'r enw da.
- **Bydd angen gwneud newidiadau i ymarferion rheoli:** bydd angen gwneud newidiadau i ymarferion rheoli coed wrth i wywiad yr onnen ledaenu.
- **Cydweithio gydag eraill ar gyfer ymatebion effeithiol ar y cyd:** bydd angen cynllunio ymateb i wywiad yr onnen, er mwyn osgoi gweithio seilo a gwrthdaro gyda pholisïau lleol eraill fel polisïau yn ymwneud â thirwedd a bioamrywiaeth.
- **Mae cyfathrebu a chydweithio yn allweddol:** bydd cynllun yn cynnig gwell gyfleoedd ar gyfer cyfathrebu a thrafod ynghyd â chynnig cyfleoedd i asiantaethau gydweithio'n strategol gyda'i gilydd er mwyn rhannu costau a chyfrifoldebau.



Mae'n hanfodol deall nad ydy gwywiad yr onnen yn 'fusnes fel arfer'.

Mae gwywiad yr onnen un ai mewn ardal yn barod neu mae'n debyg y bydd yn ymddangos yn y blynyddoedd nesaf gydag effeithiau ymarferol ac ariannol difrifol dichonol i nifer o ardaloedd a mudiadau. Felly, er mwyn rheoli gwywiad yr onnen yn effeithiol, caiff dull ar y cyd rhwng mudiadau ac ardaloedd ei argymhell.

RHAN 2: PARATOI CYNLLUN GWEITHREDU GWYWIAD YR ONNEN

SUT MAE PARATOI CYNLLUN GWEITHREDU GWYWIAD YR ONNEN (CGGO) A BETH DDYLAI EI GYNNWYS

Mae gofyn rhoi nifer o wahanol weithdrefnau ar waith wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen yn dibynnu ar y staff ac adnoddau sydd ar gael. Bydd y cyfnod amser ar gyfer cynhyrchu Cynllun hefyd yn amrywio yn dibynnu ar gymhlethdod y mudiad/ardal a'r adnoddau ar gael i ymwneud â'r gwaith.

Dengys profiadau yn ystod y pedair blynedd diwethaf gall paratoi Cynllun cwbl weithredol gymryd o dri i bedwar mis i dros flwyddyn.

Mae Tabl 1 yn dangos y broses byddwch chi'n debygol o roi ar waith wrth ichi baratoi a chyflwyno Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen, gan gynnwys amcan o'r raddfa amser posib er mwyn cyflawni'r dasg, ar sail profiad. Mae modd cynnal sawl un o'r camau hyn ar yr un pryd.

		TOTAL TIME
ACTIONS	Step 1: compile an assessment of your ash trees and their health	3–6 months (average)
	Step 2: set up cross-organisational meetings on ash dieback	1 month
	Step 3: prepare the Plan	3 months to 1 year
	Step 4: set up an internal and/or external steering group to deliver the Plan	3 months to 1 year

Table 1: Estimated total time for preparing an ADAP

Cam 1: Gwneud asesiad o goed ynn

Cynnal ymarfer cychwynnol ar y cyfrifiadur o'r wybodaeth sydd ar gael am boblogaeth coed ynn fel caiff ei ddisgrifio ym **MIwch 1**.

Pan fo'r data yn brin, bydd angen casglu data penodol o bosib. Mae'n bosib y bydd hyn yn ymdrin ag eitemau fel niferoedd coed ynn mewn ardaloedd lle mae risg uchel, dosbarthiadau oed, poethfannau daearyddol lle mae coed ynn a lle'n bosib asesiad o'u hiechyd. Fel enghraifft, yn ystod haf 2014, bu i staff Cyngor Sir Devon gasglu data o bob cwr o'r sir i bennu'r nifer dichonol o goed ar y priffyrdd yn y sir (**gwelwch Flwch 5**).

BLWCH 5 Arolwg Priffyrdd Cyngor Sir Devon

Yn ystod haf 2014, cafodd cyfanswm o 440km o ffyrdd Devon eu harolygu. Cafodd coed ar 30km o Ffyrdd-A (wedi eu rhannu yn dair adran 10km) eu harolygu ym mhob un o wyth ardal cyngor rhanbarth Devon. Bu i'r arolwg ymdrin â'r arfordir, yr ucheldir, tir ffermio a rhostiroedd er mwyn cynnig trawstoriad daearyddol ac amgylcheddol da o bob rhanbarth.

Cafodd coed ar ffyrdd dosbarthiadau eraill eu cyfri yn defnyddio fideos wedi'u cynhyrchu ar gyfer asesiadau priffyrdd. Cafodd coed ar ddeg cilomedr o ffyrdd dosbarth B, C a diddosbarth eu cyfri ymhob rhanbarth, eto wrth gyfri coed priffyrdd a rhai preifat.

Cafodd holl goed ynn (cyhoeddus a phreifat) a oedd o fewn pellter disgyn o'r briffordd eu cyfri. Cafodd dau dddosbarth eu cofnodi: o dan a dros ddeugain mlynedd. Bu i allosodiad o'r data hwn awgrymu y bu oddeutu 447,639 o goed ynn yn Devon a oedd o fewn pellter disgyn o'r briffordd. I wybod mwy, [gwelwch yma](#).

IECHYD YR ONNEN

Yn ystod cyfnod datblygu'r Pecyn Cymorth hwn hwn, daeth i'r amlwg wrth fynd ati i gasglu data ar boblogaeth coed ynn, mae'n syniad da i asesu cyflwr cyfredol iechyd yr onnen yr un pryd.

Gall fod yn anodd adnabod symptomau gwywiad yr onnen mewn coed mwy. Yn ystod 2014, bu i Gyngor Sir Suffolk ddatblygu system i ddisgrifio iechyd yr onnen yn defnyddio categoreiddiad pedwar rhan yn canolbwyntio ar gyflwr canopi'r onnen i bennu'r iechyd cyffredinol (gwelwch Flwch 6).

Mae'n bwysig nodi mae'n bosib nad ydy cyflwr gwael y canopi yn sgil gwywiad yr onnen. Gall problemau eraill fel pwysau sychder, problemau gyda gwreiddiau neu hyd yn oed difrod gan golomennod coed achosi i ganopi'r onnen ddirywio. At hyn, ni fydd arolygiadau o ganopi'r coed yn datgelu arwyddion eraill o heintiad fel nodwydd waelodol. Fodd bynnag, pan fo diffyg nodweddion hawdd eu hadnabod mewn coed mawr, mae arolygu'r canopi yn ddefnyddiol i bennu'r iechyd ac mae'n gymharol hawdd ei asesu.

BLWCH 6 System Asesu Iechyd Coed Ynn Cyngor Sir Suffolk

Yn Suffolk, caiff canopiau coed ynn eu sgorio, gan asesu'r canran o'r corun sy'n weddill. Gan ddefnyddio'r fframwaith pedwar categori hwn, bydd modd pennu coeden i gategori iechyd, sy'n cynnig awgrymiadau gweithredu i fynd i'r afael â'r broblem. Dyma'r pedwar categori:

- 100%–75% o'r canopi yn weddill
- 75%–50% o'r canopi yn weddill
- 50%–25% o'r canopi yn weddill
- 25%–0% o'r canopi yn weddill

I wybod mwy, [gwelwch yma](#) lle bydd pedwar llun cyfeirnod sy'n feincnodau ar gyfer y canran o'r canopi sy'n weddill (wedi'i ddangos isod hefyd). Holl luniau © Gary Battell



0% o wywiad – Corun iach



25% o wywiad



50% o wywiad



75% o wywiad


Yn ystod 2016, 2017 a 2018 bu i Gyngor Sir Norfolk gynnal arolwg enghreifftiol o'r nifer o goed ynn ar y priffyrdd ac asesu system Suffolk ar gyfer asesu iechyd coed ynn, gan ychwanegu dau ddsbarth ychwanegol. Yn ystod eu harolwg, bu iddyn nhw gofnodi iechyd coed ynn yn defnyddio [system pedwar categori Suffolk](#) ac ychwanegu coed a oedd yn 100% iach a 100% marw sy'n dangos y canran o'r corun sy'n weddill. Caiff crynodeb o'r data iechyd ei ddangos ym **Mlwch 7**.

BLWCH 7 Arolwg Coed Ynn ar Briffyrdd Cyngor Sir Norfolk

Yn 2016 a 2017 bu i Gyngor Sir Norfolk gynnal arolwg o'r holl goed ynn a oedd o fewn pellter disgyn o ffyrdd A a B yn ogystal â rhai isffyrdd gan gynrychioli 20% o rwydwaith ffyrdd Cyngor Sir Norfolk. Cafodd 30,000 o goed eu hasesu. Bu i ddadansoddiad ystadegol (Fera Science Ltd) ddynodi bod amcan boblogaeth coed ynn sydd o fewn pellter disgyn o'r briffordd rhwng 155,700 a 180,100 o goed. Mae oddeutu 12% o goed wedi'u harolygu yn berchen i Gyngor Sir Norfolk a bu angen torri oddeutu 5% bryd hynny.

Er mwyn bwrw golwg ar y newidiadau o flwyddyn i flwyddyn, cafodd 225 safle gyda 3,005 o goed eu hasesu rhwng 2016 a 2018. Mae'r graff canlynol yn cyfuno'r arsylwadau 0% a 100% ac yn dangos dirywiad coed ynn iach (0-25%), y cynnydd mewn coed ynn gwael eu hiechyd (75-100%) a'r ansicrwydd ynghylch y cyfnod trawsnewid (25-75%). Mae Cyngor Sir Norfolk yn defnyddio'r dystiolaeth hyn er mwyn gwneud penderfyniadau.

Highways Ash Tree Condition 2016 vs 2017 vs 2018



Gwelwch [methodoleg Arolwg Norfolk, y ffurflen arolwg, a gwybodaeth, gweithdrefn a chanllaw lluniau Gwywiad yr Onnen.](#)

NIWEIDIAU SYLFAENOL

Nid ydym yn ymwybodol o effeithiau nodwyddau gwaelodol yn sgil gwywiad yr onnen hyd yn hyn. Bu inni ganfod fod y pathogen gwywiad yr onnen a'r pathogen eilradd yn achosi i'r nodwyddau gwaelodol hyn bydru'r gwreiddiau a'r bonion. Mae'n debyg bod yr nodwyddau gwaelodol yn ffurfio pan fo'r ffwng yn heintio trwy'r lentiselau ar goesyn y goeden pam fod pwysau'r haint yn uchel. Mae'r adroddiadau o Ewrop, wedi'u cyhoeddi yng nghynhadledd FRAXBACK Llundain yn 2012, yn awgrymu'r canlynol:

- Mae nodwyddau gwaelodol a'r pydredd i wreiddiau a bonion yn achosi i goed ynn mwy mewn sawl man i farw, yn enwedig ar safleoedd coetir gwlyb.
- Caiff nodwyddau gwaelodol eu cysylltu gyda pathogen eilradd ychwanegol yn aml – *Armillaria* sp. fodd bynnag gall ffwng gwywiad yr onnen hefyd fod yn brif gatalydd i'r nodwyddau.
- Pan fo pathogenau eilradd yn bresennol, gall y goeden farw'n sydyn, cwmpo neu dorri, yn enwedig ar safleoedd gwlyb lle bu gwywiad yr onnen yn bresennol am amser maith.
- Os ydy coeden yn dioddef o nodwyddau gwaelodol a phydredd i'w wreiddiau a'i fonyn, gall chwilod rhisgl ddod yn hynod gyffredin
- Gall nodwyddau gwaelodol a'r pydredd i wreiddiau a bonion yn sgil hynny ansefydlogi coed cyn i'r canopi ddechrau dirywio.



© Jon Stokes

Gall adnabod nodwyddau gwaelodol yn fuan fod yn anodd. Dylai'r rheiny sy'n cynnal arolygiadau neu archwiliadau edrych am nodwyddau bach sy'n ffurfio triongl ger bôn coeden. Gall y rhain ddod yn fwy ac yn fwy datblygedig wrth i'r haint ddatblygu. Wrth inni ddod i ddeall mwy am y mater hwn, mae'n bosib y bydd y canllawiau yn newid. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'n ymddangos yn synhwyrgall y dylid gwirio am nodwyddau gwaelodol yn ystod unrhyw archwiliadau manwl o goed ynn. Os caiff nodwyddau gwaelodol eu cofnodi, dylid cyflawni'r gwaith diogelwch coed priodol.

ARGYMHELLION AROLWG


Rydym erbyn hyn yn argymhell yn genedlaethol i bobl ddefnyddio'r pedwar Dosbarth Iechyd hyn wrth gynnal unrhyw arolygiadau yn y dyfodol. Felly, dylai pob coeden ynn caiff eu harolygu gael eu dosbarthu i un o'r pedwar Dosbarth Iechyd yr Onnen:

- **Dosbarth Iechyd 1 yr Onnen**– 100%–75% o ganopi yn weddill
- **Dosbarth Iechyd 2 yr Onnen**– 75%–50% o ganopi yn weddill
- **Dosbarth Iechyd 3 yr Onnen**– 50%–25% o ganopi yn weddill
- **Dosbarth Iechyd 4 yr Onnen**– 25%–0% o ganopi yn weddill

Mae modd cymharu fersiwn Suffolk yn uniongyrchol gyda'r gwaith yn ymwneud â bywyd coed gan Roloff (2001)¹³ a fydd yn fodd o gymharu data Prydain gyda data Ewrop os caiff cofnodion cywir eu llunio.

Mae cyfuno arolygu niferoedd y coed ac asesu eu hiechyd yn ddefnydd effeithiol o adnoddau. Bydd hyn yn gyfle i fudiadau ddeall am helaethrwydd coed ynn ynghylch eu cyflwr iechyd cyfredol.

Yna fe ddylid defnyddio unrhyw arolygiadau dilynol er mwyn monitro newidiadau rhwng Dosbarthiadau Iechyd dros amser. Bydd hyn yn fodd o ddysgu mwy am effaith a chyflymder lledaeniad gwywiad yr onnen. Mae monitro dros amser hefyd yn hanfodol gan fod adroddiadau yn dangos mewn ychydig o flynyddoedd bydd modd i goed adfer cyflwr eu canopi, yn enwedig yn ystod hafau poeth a sych pan na fydd y tywydd yn ddelfrydol i ffwng sborynnu. Fodd bynnag, ar y cyfan, fe fydd iechyd y coed yn parhau i ddirywio yn sgil yr haint yn y coed. Felly mae'n hanfodol, er os ydy'r cyflwr yn gwella, eich bod yn parhau i'w harolygu.



Ffigwr 5: Dosbarthiadau Bywioldeb *Fraxinus*
Mae Lluniau 1 a 2 yn ddosbarth Bywioldeb Ewropeaidd
0 sy'n cyfateb i Ddosbarth Iechyd 1 Prydain.
Lluniau 3 a 4 = Dosbarth Iechyd 2.
Lluniau 5 a 6 = Dosbarth Iechyd 3.
Lluniau 7 ac 8 = Dosbarth Iechyd 4.

Wedi'u defnyddio gyda chaniatâd 'A. Roloff 2001: *Baumkronen*. Cyhoeddwr: Ulmer, Stuttgart/GER

¹³ Gwelwch A. Roloff 2001: *Baumkronen*. Cyhoeddwr: Ulmer, Stuttgart/GER

GOBLYGIADAU RHEOLI CYFUNDREFN DOSBARTIAD IECHYD YR ONNEN

Ynghyd a chynnig dull ar gyfer cofnodi cyflwr iechyd coed ynn, mae'r system Dosbarthiadau Iechyd Coed Ynn hefyd yn cynnig framwaith ar gyfer trafodaeth am yr ymarferiadau rheoli hanfodol er mwyn rheoli'r dirywiad mewn coed ynn er lles diogelwch y cyhoedd. Fel enghraifft, cafodd pedwar llun cyfeirnod Suffolk eu cyflwyno i 120 o swyddogion coed Awdurdodau Lleol. Bu inni eu holi ynghylch eu penderfyniadau rheoli yn sgil y lluniau cyfeirnod. Dyma'u hymatebion:

	Inspect in line with tree management policies	Increased inspection and possible work	Detailed and specialist inspection and/or work	Fell or remove
Ash Health Class 1	100%			
Ash Health Class 2	95%	5%		
Ash Health Class 3	5%	85%	10%	
Ash Health Class 4			80%	20%

Table 2: Management response to canopy decline

Mae'r data hwn yn awgrymu wrth i ddirywiad yn iechyd yr onnen ddod yn fwy amlwg, caiff y penderfyniadau ac ymarferion rheoli ynghylch y goeden honno eu haddasu. Mae asesu a monitro newidiadau yn iechyd eich poblogaeth o goed ynn yn hanfodol er mwyn asesu'r union drafferthion rheoli y mae a bydd yn rhaid i'r mudiadau fynd i'r afael â nhw. Er mwyn helpu staff gyda phenderfyniadau rheoli yn dilyn arolwg, bu i Gyngor Norfolk ddatblygu Siart Rediad Archwilio Priffyrdd, gallwch fwrw golwg arni [yma](#).

Cam 2: Ymgysylltu gyda chydweithwyr ynglŷn â gwywiad yr onnen a'r angen am gynllun

Unwaith caiff data coed lleol ei gasglu a'i ddefnyddio er mwyn diweddarau modelau ariannol (gwelwch **Flwch 2 ar dudalen 21**), dylid trefnu cyfarfod(ydd) rhwng gwahanol fudiadau ynghylch gwywiad yr onnen er mwyn hysbysu'r gweithwyr a rheolwyr am y materion. **Gwelwch Flwch 8** gan Swydd Gaerlŷr.

BLWCH 8 Ymgysylltiad Cyngor Swydd Gaerlŷr gyda chydweithwyr

Yn ystod haf 2017, bu i Dîm Rheoli Adrannol yr Amgylchedd a Chludiant Cyngor Swydd Gaerlŷr ddwyn i ystyriaeth gwywiad yr onnen a'r goblygiadau ynghlwm. Bu cynrychiolwyr o'r Adran Gyllid, Gwasanaethau Eiddo, yr Adran Yswiriant, yr Uned Trawsnewid a'r Adran Adnoddau Dynol yn bresennol hefyd er mwyn dysgu am y goblygiadau ehangach i'r Cyngor. O ganlyniad i'r cyfarfod, cafodd gwywiad yr onnen ei drosglwyddo i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'i ychwanegu at gofrestr risg corfforaethol y Cyngor. Cafodd tîm prosiect gydag aelodau o wahanol adrannau ei sefydlu er mwyn datblygu sut bydd y Cyngor yn ymateb i wywiad yr onnen.

Bu i'r tîm gyhoeddi eu Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen ym mis Gorffennaf 2018 ([gwelwch y Cynllun](#)), gyda dros £5 miliwn wedi'i neilltuo i ymdrin â gwywiad yr onnen yn y sir. Cafodd y Cynllun ei gymeradwyo mewn cyfarfod Cyngor llawn ym mis Gorffennaf 2018 ac mae recordiad ar [YouTube](#) (eitem ar wywiad yr onnen yn cychwyn ar 1 ar 35 munud).

Diben yr ymgysylltu hyn ydy ceisio am gefnogaeth reolaethol i gynhyrchu'r Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen a mynd rhagddi gyda cham nesaf y broses – datblygu'r Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen ei hun. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, bydd angen ichi fwrw golwg ar y risgiau cyfundrefnol ar **dudalen 15** ynghylch effeithiau iechyd a diogelwch, economaidd, amgylcheddol ac effeithiau i'r enw da. Wrth drafod gyda Chyfarwyddwyr Awdurdodau Lleol yn ystod cyfnod datblygu'r Pecyn Cymorth hwn, bu pryderon ynghylch effeithiau gwywiad yr onnen amrywio rhwng mudiadau, ond y pryderon mwyaf cyson oedd:

1. Effaith ar iechyd a diogelwch

- Marwolaethau neu anafiadau posib yn sgil damweiniau yn ymwneud gyda gwywiad yr onnen
- Mwy o broblemau iechyd a diogelwch yn sgil llai o goed ynn ar y ffyrdd, ar dir wedi'i feddiannu neu ei reoli fel parciau gwledig, ystadau tai, ysgolion, llwybrau beicio, llwybrau meirch a llwybrau cerdded

2. Effaith ar yr economi

- Mwy o gyfrifoldebau yn sgil marwolaethau neu anafiadau o ganlyniad i ddamweiniau yn ymwneud gyda gwywiad yr onnen
- Lefelau staff annigonol i ymgymryd â'r gwaith gofynnol gan achosi costau uwch i recriwtio a chadw'r staff angenrheidiol
- Mwy o gostau uniongyrchol ac anuniongyrchol yn sgil gwywiad yr onnen fel mwy o staff, gweithrediadau rheoli ychwanegol a'r effaith posib ar wasanaethau a chyllidebau eraill

3. Niwed i'r enw da

- Risgiau gwleidyddol ac i'r enw da yn sgil sylw negyddol yn y wasg a/neu feirniadaeth gyhoeddus o'r gwaith i reoli gwywiad yr onnen
- Perthnasau gyda phwysau posib gyda thirfeddianwyr a rheolwyr wrth i wywiad yr onnen ledaenu a bod mwy o gostau i'r perchnogion preifat

4. Effaith ar yr amgylchedd

- Newidiadau i'r dirwedd gan effeithio ar dwristiaeth a chyfleoedd adloniant.

Yn dilyn y cyfarfod hwn, mae'n bosib y bydd angen ichi wneud y canlynol hefyd:

- **ceisio am gefnogaeth wleidyddol ar gyfer y Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen**
- **penodi hyrwyddwr neu eiriolwr Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen, sef Cynghorydd, Cadeirydd Pwyllgor neu Arweinydd Cyngor, Cyfarwyddwr neu uwch reolwr os yn bosib.**

Bu inni ganfod, wrth ddatblygu'r pecyn cymorth hwn, ei fod yn help mawr i fanteisio ar gefnogaeth gwleidyddol mor fuan â phosib wrth i fudiadau fynd ati i lunio cynlluniau yn ymwneud â gwywiad yr onnen. Mae'r gefnogaeth wleidyddol hon fel arfer yn hanfodol er mwyn gofalu bod modd manteisio ar adnoddau ac amser y swyddog. Felly, bydd angen ichi gynnig crynodeb digonol i wleidyddion lleol ynghylch gwywiad yr onnen. Gwelwch adroddiad Pwyllgor Cyngor Sir Norfolk ynghylch gwywiad yr onnen, wedi'i ddyddio **Medi 2016, Hydref 2016, a Thachwedd 2017.**

Mae'n bosib y bydd angen ichi fabwysiadu'r Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen yn ffurfiol hefyd, gall olygu'r canlynol:

- **derbyn cadarnhad gan y Cabinet neu'r Pwyllgor perthnasol**
- **cyhoeddi'r cynllun ar wefan y Cyngor**
- **cyfuno'r cynllun gyda dogfennau polisi eraill y Cyngor neu gyfeirio at y cynllun ynddyn nhw e.e. Cynlluniau Bioamrywiaeth Lleol neu Gynlluniau yn ymwneud â'r Dirwedd**
- **datblygu unrhyw fframweithiau neu Ddogfennau Cynllunio Atodol.**

Cam 3: Creu Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen

Unwaith y bydd cefnogaeth rheoli er mwyn llunio Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen, bydd angen i fudiadau neilltuo amser staff a/neu adnoddau er mwyn datblygu'r Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen. **I'ch helpu chi gyda llunio'r Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen, bu inni gynhyrchu templed gallwch ei lawr [lwytho yma](#) gydag awgrymiadau o ran y strwythur a'r cynnwys.** Yna, gall pob mudiad fynd ati i addasu'r templed fel sy'n briodol.

CYDRANNAU I'W HARGYMELL MEWN CYNLLUN GWEITHREDU GWYWIAD YR ONNEN

Bydd union natur y Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen yn dibynnu ar anghenion y mudiad a'r trafferthion maen nhw'n eu hwynebu. Wrth i fudiadau fynd ati i gynhyrchu mwy o Gynlluniau, caiff y [cynllun templed](#) ei goethi. Dyma grynodedb o'r rhannau isod:

- **Crynodeb Gweithredol o'r Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen**
- **Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen: blaenoriaethau, deilliannau ac allbynnau**
- **Gwybodaeth am wywiad yr onnen: bioleg, ymlediad a'r effaith dichonol**
- **Buddion coed a choetiroedd ynn**
- **Cyngor rheoli: opsiynau ar gyfer rheoli gwywiad yr onnen**
- **Effeithiau dichonol yn sgil gwywiad yr onnen yn eich ardal, fel i:**
 - Y dirwedd a bioamrywiaeth
 - Tirfeddianwyr lleol, rheolwyr tir a pherchnogion cartrefi
 - Mudiadau gwasanaethau cyhoeddus ac isadeiledd lleol
- **Adfer wedi effeithiau gwywiad yr onnen**
 - ail-ddatblygu coedwigoedd gwydn
- **Effeithiau posib gwywiad yr onnen ar waith eich mudiad a mudiadau eraill yn eich ardal**
 - Effaith ar iechyd a diogelwch
 - Effaith ar yr economi
 - Niwed i'r enw da
 - Effaith ar yr amgylchedd
- **Mae'r Cynllun Cyflwyno yn ymwneud â: gweithrediadau blaenoriaethol, amcan gostau, prif bartneriaid darparu a datblygu gweithdrefnau newydd yn ymwneud â rheoli coed, er enghraifft defnydd o siswrn torri coed.**

Cam 4: Sefydlu grŵp gweithredu'r cynllun yn fewnol a/neu yn allanol

Unwaith caiff y cynllun ei ddatblygu a'i gymeradwyo, bydd angen ichi sefydlu grŵp llywio mewnol a/neu allanol i fynd ati i weithredu'r Cynllun. Gallwch wneud hyn drwy sefydlu grŵp gwaith newydd (**gwelwch Flwch 9**).

BLWCH 9 Fforwm Gwydnwch Devon ynghylch Gwywiad yr Onnen

Yn dilyn cyhoeddiad **Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen Devon**, cafodd Fforwm Gwydnwch Devon ynghylch Gwywiad yr Onnen ei sefydlu er mwyn goruchwyllo rhoi'r cynllun ar waith. Dyma amcanion y fforwm:

- **Cynnig gweithdrefn gryfach gyda mynd i'r afael â gwywiad yr onnen**
- **Cynnig cysondeb**
- **Osgoi dyblygu / adnoddau yn mynd i wastraff**
- **Gofalu bod gwybodaeth yn cael ei rannu'n well gyda holl rhanddeiliaid gwywiad yr onnen.**

Yn dilyn y cyfarfod cyntaf ym mis Gorffennaf 2016, cafodd **amcanion y grŵp eu cytuno**.

Cafodd Is-grwpiau eu sefydlu i weithredu ar y cyd ar y meysydd canlynol:

- **Rheoli Risg Gwywiad yr Onnen**
- **Lleihau Effaith Amgylcheddol Gwywiad yr Onnen**
- **Cyfathrebu.**

Cafodd brand adnabyddus ei ddatblygu fel ei fod yn ymddangos bod unrhyw gyfathrebu gyda rhanddeiliaid yn deillio o ffynhonnell unedig. Cafodd y **pennawd llythyr** ei gymeradwyo ym mis Hydref 2016 er mwyn i aelodau'r Fforwm fedru cyfathrebu gyda rhanddeiliaid allanol.

Yn sgil datblygu Fforwm Gwydnwch Devon ynghylch Gwywiad yr Onnen, cafodd gweithdrefn ar y cyd ei hwyluso er mwyn rheoli gwywiad yr onnen yn Devon. Bu i hyn sicrhau fod y paratodau er mwyn mynd i'r afael gyda gwywiad yr onnen yn gyson rhwng asiantaethau gan osgoi unrhyw waith wedi'i ddyblygu neu adnoddau'n mynd i wastraff.

Bu i Devon fwrw golwg ar effaith hirdymor gwywiad yr onnen ar y sir a bu iddyn nhw gyflwyno cynllun amnewid tri o goed ynn yn lle un, gan blannu tair coeden am bob un coeden hŷn.

Dyma'r adnoddau bu i'r grŵp eu llunio:

- [Canllaw ar gyfer gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd wrth fynd i'r afael gyda gwywiad yr onnen](#)
- [Strwythur gwefan gwywiad yr onnen](#)

Ymysg aelodau'r fforwm mae'r canlynol: Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Devon, Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth Devon, Cyngor Sir Devon, Cyngor Dosbarth Dwyrain Devon, Cyngor Dosbarth Gogledd Devon, Cyngor Sir Plymouth, Cyngor Dosbarth Teignbridge, Cyngor Torbay, Cymdeithas Meddianwyr Tir Gwledig, FWAG SW, Grŵp Gwrychoedd Devon, Gwarchodfa Biosffer Gogledd Devon, Gwasanaeth Arfordiroedd a Chefn Gwlad Torbay, Lloegr Naturiol, Mynwentydd Byw Devon, Network Rail, Parc Cenedlaethol Dartmoor, Parc Cenedlaethol Exmoor, Priffyrdd Devon, Priffyrdd Kier ar gyfer HE, RSPB, Treeconomics, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Western Power Distribution, Y Comisiwn Coedwigaeth, Y Cyngor Coed, Y Gymdeithas Goedyddiaeth, Ymddiriedolaeth Natur Devon, Ystadau Clinton Devon, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Yr Ymddiriedolaeth Coetiroedd

CYNLLUNIAU GWYWIAD YR ONNEN PRESENNOL AWDURDODAU LLEOL

Hyd y gwyddwn ni, mae fersiynau o'r Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen wedi'u datblygu yn y siroedd canlynol : [Devon](#), [Caint](#), [Caerlŷr](#), [Dwyrain Sussex](#), [Gorllewin Sussex](#), [Dwyrain Lindsey](#) a [Test Valley](#). Caiff cynlluniau gweithredu hefyd eu datblygu yn Norfolk, Cernyw a Suffolk. Wrth i fwyfwy o gynlluniau gael eu cyhoeddi, byddwn yn ehangu'r adran hon.

RHAN 3: SUT MAE MYND I'R AFAEL GYDAG AC YMATEB I WYWIAD YR ONNEN

Unwaith caiff Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen (ADAP) ei ddatblygu, bydd yn rhaid ymdrin â chyfnod gweithredu Ffigur 1 (tudalen 7), er mwyn ymateb i wywiad yr onnen. Felly bydd angen canolbwyntio ar weithredu (e.e. torri coed) i fynd i'r afael â'r problemau yn sgil gwywiad yr onnen.

Yn ystod y cyfnod hwn o wywiad yr onnen, (gwelwch **Ffigur 1**), sy'n debygol o bara am flynyddoedd maith, bydd opsiynau rheoli penodol yn newid a chaiff ymarfer gorau ei ddatblygu a'i addasu. Byddwn yn rhannu enghreifftiau diweddar ac ymarfer gorau wedi'i ddatblygu trwy'r pecyn cymorth hwn. Rydym yn annog unrhyw fudiad i gysylltu gyda ni er mwyn cynnig adborth neu enghreifftiau o ymarferion amgen.

CAM GWEITHREDU 1 - DATBLYGU CYNLLUN CYFATHREBU I GYNULLEIDFAOEDD MEWNOL AC ALLANOL

Mae angen i ystod eang o randdeiliaid mewnol ac allanol fod ynghlwm er mwyn mynd i'r afael â gwywiad yr onnen yn effeithiol. Bydd cynllun cyfathrebu yn gofalu fod modd i'r holl bartneriaid fanteisio ar yr wybodaeth angenrheidiol i fedru gweithredu'n effeithiol. Fe ddylai'ch cynllun cyfathrebu adnabod yr holl randdeiliaid mewnol ac allanol, beth sydd angen iddyn nhw ei wybod a sut byddwch yn eu hysbysu. Bu i Grŵp Gwydnwch Tirwedd ac Ecolegol (LERG) Fforwm Gwydnwch Devon ynghylch Gwywiad yr Onnen ddatblygu strategaeth cyfathrebu sy'n adnabod sut dylai gwahanol fudiadau partner gyfathrebu gyda rhanddeiliaid perthnasol wrth ymwneud â rhannau allweddol yr ymateb. Fe ddylen nhw drafod sut i adnabod ac ymateb i wywiad yr onnen i ysbrydoli'r gymuned ehangach i weithredu, i ddatblygu dealltwriaeth o'r clefyd drwy rannu gwybodaeth. Gallwch fwrw golwg ar y ddogfen [yma](#).

CAM GWEITHREDU 2 - DEALL COLLED YR ONNEN A BIOAMRYWIAETH

Mae coed ynn yn cefnogi nifer sylweddol o rywogaethau eraill. Cafodd rhestr o 955 o rywogaethau sy'n defnyddio'r onnen ei lunio, lle mae 45 yn defnyddio'r onnen yn unig, h.y. maen nhw ond yn ymddangos ar goed onn mae'n debyg ac mae 62 yn dra chysylltiedig gyda'r onnen (anaml iawn byddan nhw'n ymddangos ar goed eraill heblaw'r onnen. Gallwch fwrw golwg ar y rhestr o'r rhywogaethau hyn ar daenlen Excel o'r enw AshEcol sydd ar gael yma:

NECR151 rhifyn 1 – Taenlen o fioamrywiaeth sy'n gysylltiedig gyda'r onnen.

Os ydy rhywogaeth prin yn defnyddio unrhyw goed eraill ar wahân i'r onnen, yna mae'n bosib bydd ei boblogaeth yn gostwng os bydd y nifer o goed ynn yn gostwng. Fodd bynnag, mae'n bosib fod modd parhau i gefnogi poblogaethau rhywogaethau sy'n defnyddio coed eraill yn ogystal â'r onnen. Bu asesiad ar bob un o'r 995 rhywogaeth sy'n ymwneud â'r onnen ac a fydden nhw'n defnyddio un o'r 48 math o goed eraill ai pheidio. Mae'r wybodaeth hefyd ar gael ar AshEcol. Er mwyn helpu rheolwyr coetir coed ynn, cafodd gweithdrefn 5 cam ei ddatblygu i'w helpu i adnabod sut i newid dulliau rheoli eu coetir er mwyn cefnogi bioamrywiaeth cysylltiedig â'r onnen pe bai'r nifer o goed ynn yn gostwng.

Mae'r weithdrefn 5 cam hwn ar gael yma: [NECR151 rhifyn 1 – Taenlen ar fioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â'r onnen : cyfarwyddiadau](#).

Bu i 15 safle astudiaeth achos ledled Prydain roi'r weithdrefn ar waith. Mae modd **lawr lwytho** pob astudiaeth achos [yma](#).

CAM GWEITHREDU 3 - DATBLYGU SAFLE CYFFREDIN I WYWIAD YR ONNEN AC YMARFERION CYFREITHIOL PRESENNOL


Mae sawl Awdurdod Lleol ac asiantaethau eraill yn dymuno datblygu dull ar y cyd o fynd i'r afael gyda gwywiad yr onnen, er mwyn gofalu caiff 'ymarfer gorau' ei rannu a'i weithredu. Bu i grŵp Swyddogion Coed Caint baratoi papur sy'n ymdrin â gwaith ar y cyd swyddogion coed Caint yn ymwneud â gwywiad yr onnen. Bu iddyn nhw ddangos ei fod yn bosib cynnal gwaith ar y cyd mewn sir ac mae hyn yn sail ar gyfer trafodaeth gyda grwpiau Awdurdodau Lleol eraill. Gallwch **lawr lwytho'r** ddogfen gyflawn [yma](#).

CAM GWEITHREDU 4 - RHEOLI GWYWIAD YR ONNEN MEWN MANNAU Â RISG UCHEL

Fel rhan o waith Fforwm Gwydnwch Devon ynghylch Gwywiad yr Onnen, cafodd model ei ddatblygu o'r opsiynau rheoli ar gyfer coed ynn mewn mannau â risg uchel wedi'u heffeithio gan wywiad yr onnen. Mae'r model yn ymwneud â'r pedwar Dosbarth lechyd yr Onnen (wedi'u crybwyll ym **Mlwch 5**) ac ymatebion rheoli arfaethedig Devon i bob un. Gallwch [ei lawr lwytho yma](#).

CAM GWEITHREDU 5 – PAMFFLED A CHANLLAW/PECYN CYMORTH BIO-DIOGELWCH

Wrth i wywiad yr onnen ledaenu yng Nghaint (gwelwch **Ffigwr 7**) a Suffolk (gwelwch **Ffigwr 8**), cafodd canllaw i'r cyhoedd ei ddatblygu. Mae'r ddwy ddogfen hyn yn enghreifftiau o ddeunyddiau wedi'u cynhyrchu i gymunedau ynghylch gwywiad yr onnen. Dylid datgan cafodd y pamffledi hyn eu cynhyrchu ar gychwyn cyfnod gwywiad yr onnen ac mae'n bosib fod gwybodaeth ac argymhellion wedi newid wrth inni ddysgu mwy am wywiad yr onnen. Hefyd, bu i'r Comisiwn Coedwigaeth gynhyrchu mwy o gyfarwyddyd ar [reoli gwywiad yr onnen mewn coetiroedd](#).



Ffigwr 7: Pecyn cymorth Gwywiad yr Onnen Suffolk



Ffigwr 8: Pecyn Cymorth Gwywiad yr Onnen Caint

CAM GWEITHREDU 6 - CYNIG COFNOD O'R DIRYWIAD MEWN COED YNN

Yn Swydd Henffordd, bu i'r Cyngor Coed gynnal cynllun prawf gyda Wardeiniaid Coed Lleol er mwyn datblygu dull i gofnodi a monitro dirywiad coed ynn unigol. Gan fod goblygiadau rheoli amlwg yn sgil y cyflymder newid rhwng Dosbarthiadau lechyd, mae hyn yn faes gwaith y mae'r Cyngor Coed yn dal i'w ddatblygu gyda Fera Science Ltd.

Mae'r ddwy ddogfen hyn yn ymdrin â'r weithdrefn sydd wedi'i ddatblygu yn Swydd Henffordd:

- [Llythyr bras o arolwg Swydd Henffordd](#)
- [Ffurflen Gofnodi Arolwg Swydd Henffordd](#)

Os hoffai eich awdurdod/asiantaeth wybod mwy am hyn, mae croeso ichi gysylltu gyda Jon.Stokes@treecouncil.org.uk.

CAM GWEITHREDU 7 - CLIRIO'R BRIFFORDD

Yn Devon, cafodd y dasg ar y cyd i dorri coed ar y priffyrdd cyntaf ei gynnal ger Bickleigh yn sgil gwywiad yr onnen yn ystod Chwefror 2018. Dros gyfnod o dridiau, cafodd 60 o goed ynn eu torri oherwydd pryderon diogelwch yn sgil gwywiad yr onnen yn yr ardal. Yn ystod y dasg, bu i hyd at naw triniwr coed gydweithio a rhaid oedd cau nifer sylweddol o ffyrdd yn ystod y gwaith. At hyn, bu i'r trinwyr coed gynnig torri coed y perchnogion preifat gyferbyn â'r ffordd am gost. Gallwch fwrw golwg ar gyflwyniad gan y Rheolwr Gweithrediadau ar y Priffyrdd ynghylch 'Rheoli Coed Devon yn ymarferol' [yma](#) gyda manylion o'r gwersi wedi'u dysgu ar sleid 16.

RHAN 4: ADFER AC ADDASU

Diben y cyfnod adfer ydy i greu coed-wedd sy'n medru gwrthsefyll unrhyw broblemau gyda phlâu a chlefydau yn y dyfodol. Wrth i wywiad yr onnen ddatblygu, bydd angen datblygu ymateb tactegol i'r Cyfnod Gweithredu (Ffigwr 1 ar Dudalen 7) ond hefyd ymateb strategol i broblemau ehangach yn ymwneud â'r goed-wedd yn ystod y cyfnod addasu ac adfer.

Dylai'r cynllunio strategol lleol ymwneud â'r cysyniadau wedi'u crybwyll yn [Strategaeth Gwydnwch Iechyd Coed](#) Defra (wedi'i gyhoeddi ym mis Mai 2018). Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar gyflawni tri deilliant er mwyn datblygu hydwythedd – (1) gwydnwch, (2) ymateb ac adfer, a (3) addasu. Mae'r strategaeth yn gosod cynlluniau er mwyn lleihau'r risg o beryglon plâu a chlefydau a chryfhau gwydnwch ein coed i fedru gwrthsefyll peryglon. Mae'n pwysleisio ar weithio i wella maint, cyflwr, amrywiaeth a chysylltedd ein coed a choedwigoedd. Hefyd mae pwyslais ar warchod y coed yn well er mwyn lleihau'r risg o beryglon newydd yn ymddangos. Mae'r strategaeth yn hyrwyddo pedwar nod amgylcheddol er mwyn datblygu gwydnwch:

ENVIRONMENTAL GOAL 1: Extent	increasing tree cover
ENVIRONMENTAL GOAL 2: Connectivity	enhancing the linear forest and matrix of trees within other habitat settings
ENVIRONMENTAL GOAL 3: Diversity	increasing the genetic and structural diversity of our treescape
ENVIRONMENTAL GOAL 4: Condition	healthier trees and more dynamic woodlands

Mae'r rhain yn drafferthion sy'n berthnasol ar lefel cenedlaethol a lleol. Wrth i wywiad yr onnen ledaenu, bydd yn dod yn fwyfwy pwysig i reolwyr coed ddatblygu strategaeth goed lleol ar gyfer eu coed-wedd yn y dyfodol.

Fodd bynnag, bu i arolwg yn 2016 o 181 o weithwyr coed proffesiynol (ymchwil Defra i ofalu bod Iechyd Coed wedi'i Ddiogelu'n gadarn at y Dyfodol) a wnaeth reoli oddeutu naw miliwn o goed ar y cyd, ganfod nad oedd bron i hanner yr ymatebwyr yn meddu ar strategaeth goed. Dengys mai Awdurdodau Lleol oedd y lleiaf tebygol i feddu ar strategaeth goed (dim ond 38%). BU i'r arolwg hefyd ddynodi er pan gaiff Strategaeth Goed ei datblygu gan

Awdurdodau Lleol, a wnaeth reoli dau draean o'r naw miliwn o goed, dydy 29% heb eu hadolygu yn ystod y tair blynedd diwethaf a dydy 17% heb eu hadolygu o gwbl.

Mae'r diffyg Strategaeth Goed gyfredol fel arfer yn sgil diffyg cyllideb i greu un, neu ddiffyg penderfyniad cyfundrefnol. Dengys canfyddiadau yn ystod datblygu'r Pecyn Cymorth hwn yr oedd yn rhaid i fudiadau sy'n mynd i'r afael â gwywiad yr onnen ddatblygu/coethi Strategaethau Coed blaenorol. Roedd yn rhaid datblygu'r strategaethau i fod yn rhagweithiol wrth reoli gwywiad yr onnen, yn enwedig mewn perthynas â chynlluniau ar gyfer y cyfnod Adfer. Mae hyn yn faes gwaith sy'n prysur newid y mae'r Cyngor Coed yn ei ymchwilio ymhellach.

PARATOI A DATBLYGU STRATEGAETH GOED

Yng Nghaint, Suffolk a Norfolk, bu angen llunio strategaeth goed yn sgil gwywiad yr onnen – hyn er mwyn ystyried penderfyniadau yn y cyd-destun ehangach o ran dyfodol y dirwedd / coed-wedd. Yng Nghaint, cafodd datblygiad strategaeth goed ei gynnwys yn nrafft cyntaf y Cynllun Gweithredu Gwywiad yr Onnen (ADAP) – [gwelwch yma](#) a **Blwch 10**.

BLWCH 10 Datblygiad Strategaeth Goed Caint

Yn 2016 bu gwaith cwmpasu rhagbaratoawl ar gyfer Strategaeth Goed Caint, sydd erbyn hyn wedi'i ffurfioli fel gweithred gymeradwy yng Nghynllun Gweithredu aml-asiantaeth Amgylchedd Caint 2017. Erbyn hyn, Fforwm Gwydnwch Caint, Grŵp Cydlynu Strategol ynghylch Gwywiad yr Onnen sy'n gyfrifol yn bennaf dros gynnig y strategaeth goed o fewn y Cynllun Gweithredu. Cafodd fframwaith ar gyfer Strategaeth Goed Caint ei gymeradwyo a chafodd data sylfaenol ei gasglu (2017). Mae disgwyl y bydd y ddogfen derfynol wedi'i chwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20. Bydd y Strategaeth Goed yn cynnig y canlynol:

- **Cynllun penodedig ac adnodd ar gyfer cynllunwyr, rheolwyr tir a rhanddeiliaid eraill y sector cyhoeddus, preifat gwirfoddol i ehangu'r ardal goed a choetiroedd y mae Caint yn gyfrifol amdani**
- **Mwy o ddealltwriaeth a defnydd o wasanaethau amgylcheddol coed a choetiroedd.**

Mae disgwyl caiff y ddogfen ei mabwysiadu fel Dogfen Cynllunio Atodol yn cynnig mwy o fanylion am y polisiau yn y polisi cynllunio lleol cyfredol.

Pan ddechreuodd goed ynn wywo yn Suffolk yn 2012, bu i'r Cyngor Sir gynhyrchu papur Cabinet anffurfiol i amlygu'r risgiau economaidd, amgylcheddol ac i ddiogelwch y cyhoedd posib yn sgil Chalara. Yna, bu i'r Cyngor sylweddoli fod gwywiad yr onnen yn amlygu'r angen am bolisi coed gwlad gyfan i'w fabwysiadu gan Sir Suffolk ynghyd â'r cyffiniau a'r bwrdeistrefi. Ers gaeaf 2018, mae Polisi Coed Suffolk yn ei gyfnod ymgynghori ac y gobaith ydy caiff Polisi Coed Suffolk ei gyflwyno gerbron y Cabinet er mwyn iddyn nhw wneud penderfyniad yn 2019.

STRATEGAETH ADFER

Wrth i effeithiau ar led gwywiad yr onnen wneud difrod mawr, yn ogystal â thactegau tymor byr sy'n ymdrin â cholli coed ynn, bydd yn hanfodol dwyn i ystyriaeth cynlluniau adfer tymor hirach. Hefyd bydd angen dwyn i ystyriaeth sut i ddiogelu coed-weddau gwerthfawr Prydain ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd angen plannu gwydn a meddwl yn weledigaethol ynghyd â Chynlluniau Gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r bygythiadau uniongyrchol i bob cymuned.

Yn Devon, bu i is-grŵp y Fforwm Gwydnwch ar y Tirwedd a Hydwythedd Ecolegol gynnal adolygiad o goed onn yn nhirwedd Devon. Bu i'r is-grŵp hefyd fynd ati i ddatblygu negeseuon ac egwyddorion allweddol yn ymwneud â'r dirwedd, byd natur a chynnal a chadw'r cyfalaf naturiol ac adfer.

Maen nhw'n datgan bod "peryg i'r onnen, oherwydd ei helaethrwydd llwyr, effeithio'n sylweddol ar ansawdd y dirwedd, ar y bywyd gwyllt sy'n dibynnu ar goed, ar gyfaint y dŵr ffo yn sgil storm ac ar dymereddau trefi a dinasoedd yn ystod yr haf pe bai'n gwywo'n gyfan gwbl. Bydd ei wywiad hefyd yn effeithio ar gyfansoddiad y pridd, cymunedau cennau'r coed arbenigol a chynnyrch coed llydanddail mewn coetiroedd."

Bu iddyn nhw ddatblygu **wyth egwyddor allweddol er mwyn ail-blannu coed ynn:**

1. Ewch ati i weithredu ar unwaith i leihau effaith gwywiad yr onnen ar y dirwedd – ewch ati i blannu coed newydd a gofalu am goed presennol yn well.
2. Defnyddiwch y fformiwla 3/2/1/: o leiaf 3 coeden newydd os bydd un goeden sylweddol yn gwywo, 2 am goeden ganolig ac 1 am goeden fach.
3. Hyrwyddo adfywio naturiol pan fo'n bosib, yn enwedig mewn coetiroedd.
4. Tyfu'r coed priodol yn y manau priodol yn y dulliau cywir ac ôl-ofalu amdany'n nhw'n gywir.
5. Plannu ystod eang o goed i ddatblygu tirwedd wydn. (Does dim modd i un rhywogaeth yn unig gymryd lle yr onnen. Fodd bynnag, mae aethnen, y wernen, y fasarnen fach, y fasarnwydden, y fedwen, y gerddinen a'r llwyfen sy'n gwrthsefyll y clefyd, yn ogystal â'r dderwen frodorol, yn meddu ar nodweddion tebyg.)
6. Wrth ddewis rhywogaethau, ewch ati i ddwyn ystyriaeth ffactorau'r ardal fel pa goed sy'n nodweddiadol i'r ardal, y math o bridd, gofynion rheoli, pwysau lleol ac ati.
7. Ar gyfer bywyd gwyllt, y dirwedd a thanwydd coed, dewiswch rywogaethau brodorol, neu'r rheiny sy'n gyffredin ar Ynysoedd Prydain fel y fasarnwydden, y goeden ellyg gwyllt, y goeden afalau bach sur neu'r helygen wen. Mewn manau trefol, mae'n fwy derbyniol i ddefnyddio rhywogaethau o fannau eraill y byd.
8. Lleihau'r risg o gyflwyno clefydau newydd gan blannu coed sy'n tarddu o ac wedi'u plannu (UKSG) ym Mhrydain.

Bu i'r Fforwm hefyd gynhyrchu nifer o nodiadau canllaw defnyddiol gallwch fwrw golwg arny'n nhw isod:



- [Plannu Coed yn lle'r Onnen : dewis y coed priodol](#)
- [Canllaw er mwyn gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd](#)
- [Cynyddu hydwythedd coed-wedd Devon](#)
- [Beth ydy buddion yr onnen?](#)

3. Casgliadau

Dim ond saith mlynedd wedi'i adnabyddiaeth swyddogol ym Mhrydain, bu i wywiad yr onnen ddechrau effeithio'n sylweddol ar goed-wedd y wlad. Fodd bynnag, mae'n dal yn rhy fuan i ddeall a fydd unrhyw goed yn medru gwrthsefyll y ffwng, y gwirionedd ydy mae'n debyg caiff 90% o'r 2 biliwn o goed ynn ym Mhrydain eu heintio yn y blynyddoedd nesaf.

Mae'r risgiau posib i iechyd a diogelwch pobl ynghlwm â choed ynn meirw a heintus, ynghyd â'r effeithiau economaidd ac amgylcheddol sylweddol, yn golygu ei fod yn hanfodol derbyn nad oes modd i unrhyw un sy'n rheoli coed neu'r dirwedd fynd ati i drin gwywiad yr onnen ar sail 'busnes fel arfer'.

Fel cenedl, ni allwn ni fforddio bod yn oddefol a chaniatáu i wywiad yr onnen ddigwydd heb inni ei ystyried yn ofalus, ystyried ein gweledigaeth ac ymyrryd yn rhagweithiol. Mae gormod yn y fantol. Diben y pecyn cymorth pedwar rhan hwn ydy cynnig fframwaith Cynllun Gweithredu profedig a phwrpasol er mwyn mynd i'r afael â'r broblem.

Mae'r Cyngor Coed yn credu fod gwywiad yr onnen yn gyfle i ddatblygu coed-weddau newydd gwydn ledled Prydain. Ar hyn o bryd, mae llai na un traean o Awdurdodau Lleol yn meddu ar strategaethau coed gweithredol. Fodd bynnag, bydd datblygu Fforymau Gwydnwch lle bydd mudiadau amgylcheddol a mudiadau coed lleol yn rhan ohonyn nhw, yn golygu bydd grwpiau priodol er mwyn cefnogi Awdurdodau Lleol i ddatblygu strategaethau coed manwl unwaith y bydd yr ymateb i wywiad yr onnen ar waith. Mae rhwydwaith Wardeiniaid Coed gwirfoddol y Cyngor Coed hefyd yn help i swyddogion coed Awdurdodau Lleol i fynd ati i fonitro ac ail-blannu yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Bydd cyfathrebu, cydweithio ac ymwneud yn weithredol gyda chymunedau yn annatod i lwyddiant y gwaith rheoli gwywiad yr onnen. Rydym yn credu dylid meithrin ac annog adnodd gwerthfawr gan y Fforymau Gwydnwch newydd a'r Wardeiniaid Coed, er mwyn mynd i'r afael â heriau gwywiad yr onnen a chydweithio er mwyn datblygu strategaethau coed ar gyfer y dyfodol.

4. Diolchiadau, nawdd ac ymwadiad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i ddatblygu a'i gyhoeddi gan y Cyngor Coed a Fera Science Ltd, ond buasai wedi bod yn amhosib heb gyfraniad sawl Awdurdod Lleol ac asiantaethau eraill.

Hoffai'r Cyngor Coed ddiolch i'r holl bobl wnaeth roi o'u hamser i gyfrannu ffeithiau, ffigyrau a barnau.

Ymysg y bobl hyn mae staff ac aelodau gwirfoddol y mudiadau a chynghorau canlynol:


- Fforwm Gwydnwch Gwywiad yr Onnen Devon
- Grŵp Gwrychoedd Devon
- Cyngor Sir Dyfnaint
- Cyngor Bwrdeistref Fareham
- Fera Science Ltd (Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd)
- Y Comisiwn Coedwigaeth
- Ymchwil y Goedwig
- Grŵp Swyddogion Coed Hampshire
- Canolfan Cofnodion Biolegol Swydd Henffordd
- Cyngor Swydd Henffordd
- Cyngor Sir Caint
- Grŵp Swyddogion Coed Caint
- Cyngor Swydd Gaerlŷr
- Cyngor Sir Norfolk
- Cyngor Sir Suffolk
- Fforwm Gwydnwch Sussex
- Cyngor Sir Gorllewin Sussex
- Grŵp Swyddogion Coed Gorllewin Sussex

Mae'r adroddiad wedi'i lunio ar y cyd â Fera Science Ltd ac yn sgill cyllid gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

Mae data'r ddogfen hon yn farn yr awdur a chyfranwyr yn unig. Mae'r Pecyn Cymorth yn adnodd caiff ei ddatblygu'n barhaus a dydy'r awduron ddim yn cymryd cyfrifoldeb dros unrhyw golled yn sgil pobl yn dibynnu ar y cynnwys. I weld detholiad o adnoddau gan y Cyngor Coed a rhai Awdurdodau Lleol, [ewch i'n gwefan](#).

5. Mwy o adnoddau ynghylch Gwywiad yr Onnen

(yn nhrefn eu dyddiad cyhoedd)




DADANSODDIAD RISG PLÂU AR GYFER HYMENOSCYPHUS PSEUDOALBIDUS (ANAMORPH CHALARA FRAXINEA) AR GYFER PRYDAIN A GWERINIAETH IWERDDON (MAI 2013)

Wedi'i gyhoeddi gan y Comisiwn Coedwigaeth, dyma oedd yr adolygiad sylweddol cyntaf ynghylch gwywiad yr onnen a'r effeithiau posib. Sylwch: Fe gafodd ei gynhyrchu cyn cafodd enw'r ffwng ei newid i fod yn *Hymenoscyphus fraxineus*. Gallwch ei [lawr lwytho yma](#).



EFFAITH ECOLEGOL DICHONOL GWYWIAD YR ONNEN YM MHRYDAIN (MEHEFIN 2014)


Wedi'i gyhoeddi gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) (rhifyn. 483), mae hwn yn adroddiad technegol yn benodol i'r rheiny sy'n ymwneud â rheoli coed a choetiroedd er bioamrywiaeth a chadwraeth natur. Bydd yr adroddiad yn werthfawr yn arbennig i'r rheiny sy'n dwyn i ystyriaeth opsiynau hirdymor ar gyfer datblygu gwydnwch mewn coetiroedd. Hefyd er mwyn annog addasu i gefnogi bioamrywiaeth yn ystod y newidiadau pan mae gwywiad yr onnen yn digwydd. Canllaw manwl a defnyddio i gyd-fynd gyda'r ymchwil, gallwch ei [lawr lwytho yma](#).



CHALARA MEWN COED SYDD DDIM MEWN COETIROEDD (CHWEFROR 2015)


Adroddiad wedi'i gynhyrchu i Defra gan y Cyngor Coed yn crybwyll y trafferthion gall gwywiad yr onnen eu hachosi mewn sefyllfaoedd y tu hwnt i goetiroedd.

Gallwch ei [lawr lwytho yma](#).



GWYWIAD YR ONNEN EWROPEAIDD (*FRAXINUS SPP.*) – CANLYNIADAU A CHANLLAWIAU AR GYFER RHEOLAETH GYNALIADWY (2017)

Wedi'i olygu gan Rimvydas Vasaitis a Rasmus Enderle, mae'r cyhoeddiad hwn yn grynodedb o ymchwil wedi'i gynnal fel rhan o'r prosiect FRAXBACK gyda chyllid Ewrop yn ymwneud gyda gwywiad yr onnen. Canllaw manwl a defnyddiol i gyd-fynd gyda'r ymchwil, gallwch ei [lawr lwytho yma](#).



NODYN GWEITHREDIADAU Y COMISIWN COEDWIGAETH 046: RHEOLI'R ONNEN (*FRAXINUS EXCELSIOR*) MEWN COETIROEDD YN DILYN GWYWIAD YR ONNEN (*HYMENOSCYPHUS FRAXINEUS*) (MEDI '18)

Mae'r ddogfen hon yn cynnig cyngor ymarferol i unrhyw un sy'n gyfrifol am reoli'r onnen mewn coetiroedd. Bydd hefyd yn gyfeirnod er mwyn helpu arwain penderfyniadau cyson gan swyddogion y llywodraeth sy'n gweinyddu rheoliadau coedwigaeth yn ymwneud â choed a choetiroedd. Gallwch ei [lawr lwytho yma](#).

Gwywiad yr Onnen: Pecyn Cymorth ar Gynllun Gweithredu



Cyhoeddwyd yn wreiddiol ym mis Chwefror 2019
Ail Rifyn ym mis Gorffennaf 2019

The Tree Council
4 Dock Offices
Surrey Quays Road
London SE16 2XU

www.treecouncil.org.uk
info@treecouncil.org.uk
020 7407 9992

Rhif Elusen Gofrestredig 279000

Dyfyniadau: Stokes, J., a Jones, G. (2019).

Gwywiad yr Onnen: Pecyn Cymorth Cynllun Gweithredu.

Cyhoeddiad gan y Cyngor Coed. Y Cyngor Coed, Llundain.

Geiriau Allweddol: Gwywiad yr Onnen, pecyn cymorth, awdurdodau lleol, Y Cyngor Coed

Agenda Item 7

Natural Environment Scrutiny Performance Panel

Work Plan 2021-22

Meeting 1 22 nd March 2021	<ul style="list-style-type: none">• Confirmation of Convener• Nature Conservation – Project updates <i>Invited to attend:</i> Deborah Hill – Nature Conservation Team Leader Paul Meller – Natural Environment Section Manager Cllr David Hopkins – Cabinet Member for Delivery and Operations• Agree Work Plan topics 2021-22• For information only - Climate Change Action Plan consultation (link to papers)
Meeting 2 Wednesday May 19 th	<ul style="list-style-type: none">• Climate Change Action Plan consultation feedback• Climate Emergency Declaration – Council Action Plan Progress <i>Invited to attend:</i> Cllr Andrea Lewis - Cabinet Member for Homes, Energy and Service Transformation Martin Nicholls – Director of Place Rachel Lewis – Directorate Project Manager Suzy Richards – Sustainable Policy Officer
Meeting 3 Tuesday 29 th June 2021	<ul style="list-style-type: none">• Air Quality Management <i>Invited to attend:</i> Cllr Mark Thomas – Cabinet Member for Environment Enhancement & Infrastructure Management Tom Price – Team Leader, Pollution Control Victoria Seller - Swansea University, Research Officer
Meeting 2 26 th August 2021	<ul style="list-style-type: none">• Ash Dieback Jeremy Davies – Group Leader Parks and Cleansing Cllr Mark Thomas – Cabinet Member for Environment Enhancement & Infrastructure Management
Meeting 3 Wednesday 6 th October 2021	<ul style="list-style-type: none">• Local Flood Risk Management Stuart Davies – Head of Highways and Transportation Bob Fenwick – Group Leader Highways Maintenance Mike Sweeney – Team Leader, Highways and Transportation Cllr Mark Thomas – Cabinet Member for Environment Enhancement & Infrastructure Management• Water Pollution Tom Price – Team Leader, Pollution Control Paula Livingstone – Divisional EHO Cllr Mark Thomas – Cabinet Member for Environment Enhancement & Infrastructure Management

Meeting 4 Wednesday 12 th January 2022	<ul style="list-style-type: none">• TBC Management of Green Space / Weed & Verge Management
Meeting 5 Tuesday 15 th March 2022	<ul style="list-style-type: none">• TBC

Agenda Item 8



To:
Councillor Mark Thomas
Cabinet Member for
Environment Enhancement &
Infrastructure Management

Please ask for:
Gofynnwch am:

Direct Line:
Llinell Uniongyrochol:

e-Mail
e-Bost:

Date
Dyddiad:

Overview & Scrutiny

01792 637732

scrutiny@swansea.gov.uk

22 July 2021

BY EMAIL

Summary: This is a letter from the Natural Environment Scrutiny Performance Panel to the Cabinet Member for Environment Enhancement & Infrastructure Management. The letter concerns the meeting held on 29 June 2021 and the updates received regarding Air Quality Management.

Dear Councillor Thomas,

On 29 June, the Panel met to discuss the Council's current strategies regarding *Air Quality Management*. The Panel are grateful to yourself for attending to discuss the report and answer questions. We also thank Mark Wade, Head of Housing and Public Health, and Tom Price, Pollution Control Team Leader, for their attendance and contributions. We also extend our thanks to Victoria Seller, Research Officer at Swansea University, who attended to present an overview regarding the impact of air quality on human health.

The Panel received an update report regarding air quality in Swansea and the strategies currently implemented by the Council. Our discussions predominantly focused on the following aspects:

Green Infrastructure

It was pleasing to hear about the installation of a 'Green Screen' along Fabian Way in March 2020, along with the PM_{2.5} analyser. We understand this was a collaboration with the Nature Conservation Team, with the aim of mitigating exposure to engine pollution. We would be interested to hear updates regarding the analysis of data surrounding this project, which will take place to assess whether the installation has had an impact on air quality and noise.

Officers highlighted that there remains much scope to engage schools and young pupils in Green Infrastructure projects, acknowledging the need for engagement of

OVERVIEW & SCRUTINY / TROSOLWG A CHRAFFU

SWANSEA COUNCIL / CYNGOR ABERTAWE

GUILDHALL, SWANSEA, SA1 4PE / NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE, SA1 4PE

www.swansea.gov.uk / www.abertawe.gov.uk

I dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat arall neu yn Gymraeg, cysylltwch â'r person uchod
To receive this information in alternative format, or in Welsh please contact the above

children at a young age, helping to shift traditional behaviours. Members also elaborated on the need to better educate the public regarding consequences of certain behaviours and the impact of such on air pollution.

Air Pollution Monitoring

The Panel heard about the *transboundary effects* on Air Quality in Swansea, including the increased levels of air pollution during lockdown, resulting from wider events beyond localised borders.

Officers explained to us that Swansea Council utilises both automatic and non-automatic monitoring methods when undertaking Local Air Quality Management duties. Panel Members were interested to know more about the technology and available resources supporting the work of the Council's Pollution Control Team.

We heard that traffic flow data is collected and analysed, to help understand air quality measurements across Swansea. The Panel queried whether data is collected at specific times, such as dates of major events. Officers explained to us that, although not currently a focus, the capability exists to look into specific days/events and the effect of higher density traffic on localised pollution measurements. We also understand that Swansea University plan to research the impacts of major events in the area, such as the Wales National Air Show, and any subsequent influence on air quality.

Panel Members raised the issue of engine idling at school collection points and concerns that children are subject to concentrated exposure during these times. You reiterated that buses should not be running too long with idle engines, and it was pleasing to hear that this is a stipulation within contracts of bus providers. Panel Members suggested that bus operators are encouraged to install monitoring technology to measure engine idling times, a suggestion which you took on board as a possibility for inclusion within the next tender process.

The Panel also received a presentation from Victoria Seller, of Swansea University, covering an overview of air quality strategies in Wales. It was concerning to hear that air quality has been linked to a huge range of health issues and is attributable to a large number of early deaths in the UK each year. We also heard evidence that air pollution is linked to deprivation, disproportionately affecting some communities.

It was explained to us that, across Wales, there is a minimal spread of automatic monitor density due largely to the cost of monitors and the time-intensive operating requirements. We heard that in total there are forty automated monitors across Wales.

The Panel also heard that a total of twelve Local Authorities use diffusion tubes, a low cost and effective tool for measuring long term concentrations of Nitrogen Dioxide. We understand that Swansea Council also utilise diffusion tubes, although data collected is limited to mean annual concentrations.

Public Question Time

The Panel is looking to engage the public, and relevant organisations, in its work and was pleased to receive public questions on Air Pollution. Two questions were put forward during our Public Question Time item, both relating to aspects of Air Pollution.

You were asked, and responded to, the following:

- 1) *Will the council include the monitoring and control of pollution from domestic wood burners as a part of its measures to reduce particulate air pollution?* In response to this question, you highlighted that a city-wide approach to monitoring/enforcement is not achievable at present, however, the Council is making continuous improvements to Air Quality standards and policies, in line with Government guidelines. Officers confirmed that under statutory nuisance provisions, the Council has powers to respond to individual complaints regarding smoke control, and will investigate valid complaints received.
- 2) *Who in Swansea Council is responsible for developing a strategy to address this serious problem (air pollution)? When will it be given the priority it deserves, in order to save human life and address the costs of taking no action?* In response to this question, you acknowledged this as a wider policy issue and undertook to provide a full written answer in due course. I would be grateful if you could copy Scrutiny into your response.

Impacts of the LDP

The Panel took the opportunity to ask about the policies relating to the Local Development Plan (LDP) and the subsequent increase in traffic/air pollution as a result of an increase in house building. You highlighted a clear and defined need for more housing nationally, acknowledging the balance needed between housing demands and impacts upon surrounding services.

Your Response

The Panel acknowledged the increased workload experienced by the Pollution Control Team during the period of the pandemic response, and thank all those involved for their hard work and commitment.

We are interested in any thoughts you may have on the contents of this letter but, in this instance, we require no formal written response.

Yours sincerely,

Councillor Peter Jones

Convener, Natural Environment Scrutiny Performance Panel

✉ cllr.peter.jones@swansea.gov.uk